# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2024

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn hybrid Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron., Dydd Llun, 18 Mawrth 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Y Gwasanaeth Casglu Gwastraff (Tudalennau 3 - 110)**

**4. Argaeledd grantiau i sefydliadau a busnesau yng Ngheredigion (Tudalennau 111 - 118)**

**5. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 119 - 122)**

**6. Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 123 - 126)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18 Mawrth 2024

**Teitl:** Y Gwasanaeth Casglu Gwastraff

**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y cytunwyd arnynt yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2023, a darparu rhagor o wybodaeth ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Gwastraff.

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y cytunwyd arnynt yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2023, a darparu rhagor o wybodaeth ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Gwastraff.

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2023 derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am yr heriau yr oedd y gwasanaeth wedi'u hwynebu yn ystod y misoedd blaenorol a hynny oherwydd tywydd garw a'r amharu a fu yn sgil absenoldeb staff dros gyfnod yr ŵyl.

Nodwyd bod sawl ffactor wedi cyfrannu at yr amharu ym mis Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023. Rhoddwyd cyd-destun yr hyn ddigwyddodd ynghyd ag opsiynau i geisio datrys y materion hyn, ond nodwyd nad oedd y staff ar fai.

Yn hanesyddol, bu'r gwasanaeth yn fwy gwydn ond roedd hyn wedi pylu dros y degawd diwethaf yn sgil gostyngiad yn y cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru a cholli 750 o swyddi ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Pan nad oedd problemau, roedd y gwasanaeth yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn ddibynadwy iawn, ond roedd y gallu i ymateb i argyfyngau yn profi'n dipyn o her.

Ymhlith y materion allweddol a drafodwyd yn ystod y cyfarfod yr oedd:

- Lefelau Staffio
- Trefniadau Contractau
- Y Gyllideb Casglu Gwastraff
- Allanoli gwasanaethau
- Cynnal a Chadw Fflyd
- Cyfathrebu
- Safleoedd Gwastraff Cartref
- Ymholiadau Clic

Hefyd gwaith a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y gwasanaeth, ac opsiynau posib at y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth ynghylch y materion uchod a thrafodaeth gyffredinol am y gwasanaeth a ddarperir, nodwyd y camau canlynol:

1. **Dod â chasgliadau ymlaen i ddydd Sadwrn cyn Gŵyl Banc dydd Llun**
   Cam gweithredu wedi ei gwblhau
2. **Ymdrech i osgoi tarfu ar yr un eiddo am fwy nag 1 wythnos**
   Cam gweithredu wedi ei gwblhau ac yn cael ei fonitro yn barhaus
3. **Wrth gyfathrebu, defnyddio 'ymdrechu i' yn lle 'ymgeisio i' (adfer) a 'bwriadu' (BH)**
   Cam gweithredu wedi ei gwblhau
4. **Archwilio cyfleoedd ar gyfer datrysiadau digidol i helpu i nodi pwy sy'n cynhyrchu gwastraff masnachol a helpu i fonitro Gwastraff Masnach yn fwy**
   Cam gweithredu wrthi'n mynd rhagddo
5. **Cyfyngu ar nifer y bagiau du**
   Cam gweithredu wrthi'n mynd rhagddo
6. **Adolygu contractau staff gweithredol (9-12 mis)**
   Cam gweithredu wrthi'n mynd rhagddo
7. **Ymgynghori â'r staff ynglŷn â chael gwared ar y 3 diwrnod sefydlog o wyliau blynyddol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd**
   Cam gweithredu wedi ei gwblhau
8. **Monitro'r llwybrau casglu i weld a oes anawsterau ac i wneud newidiadau posib i'r llwybrau**
   Cam gweithredu wrthi'n mynd rhagddo
9. **Adolygu contractau Gwastraff Cartref i ystyried cyfleoedd i fod yn hyblyg**
   Cam gweithredu ar stop am y tro
10. **Adolygiad Strategol/ Adolygiad o'r Gwasanaeth**
    Cam gweithredu ar stop am y tro
11. **Adolygu'r flwyddyn wyliau**
    Cam gweithredu ar stop am y tro
12. **Cynyddu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer casglu gwastraff**
    Cam gweithredu ar stop am y tro

Bwriedir rhoi diweddariad pellach, mwy manwl ar gyfer pob un o'r camau hyn yn y cyfarfod.

**<u>Y Sefyllfa Bresennol</u>**

Ers y cyfarfod ar 21 Mawrth 2023, mae rhagor o wybodaeth ar gael sy'n tystio nid yn unig i'r gwelliant ym mherfformiad y gwasanaeth o safbwynt casglu gwastraff dros y 9 mis diwethaf ond sydd hefyd yn darparu gwybodaeth am berfformiad rhagorol y gwasanaeth yn genedlaethol a hynny drwy ddadansoddi data yn wrthrychol. Darperir y data isod.

Mae'r *Data ar ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff trefol ar gyfer Ebrill 2022 i Mawrth 2023* wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fan hyn:

<u>https://www.llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-2022-i-mawrth-2023</u>

Mae'r data yma yn dangos bod Cyngor Sir Ceredigion wedi ailgylchu 70.3% o'i wastraff yn ystod blwyddyn ariannol 22/23, gan ei osod yn 4ydd o blith 22 Awdurdod Lleol

Cymru, ac ymhlith y pedwar yn unig a lwyddodd i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio dros 70% o'i wastraff.

Targed Llywodraeth Cymru oedd 64%.

Mae'r ffigurau chwarterol ar gyfer 23/24 (Chwarter 1 i Chwarter 3) yn dangos y bydd y perfformiad hwn yn gwella eto yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol:

| **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** |
|---|---|---|
| 75.91% | 72.68% | 70.47% |

Hefyd mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi creu Adroddiad Blynyddol ar Ddata Cyllid Gwastraff, ynghyd ag adroddiad cryno (ar gael ar ffurf ddrafft yn unig ar hyn o bryd) sy'n tynnu ynghyd ac yn cymharu'r data ar gyfer cyllid gwastraff ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

Annual Waste Finance report 2021_22 eng.p

DRAFT Ceredigion HH waste Services Fin

Mae'r adroddiad cryno drafft yn rhoi darlun cadarnhaol tu hwnt o'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion ac yn dynodi, mewn perthynas â'r:

**Gwariant ar wasanaethau gwastraff cartref 2020-21 i 2021-22, bod Ceredigion:**
- â'r gost leiaf o blith 2 Gyngor y Canolbarth
- â'r gost ail leiaf o blith y 10 Cyngor Gwledig
- â'r gost 8fed leiaf o blith y 22 Cyngor

**Cost casglu gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22, bod Ceredigion:**
- â'r gost leiaf o blith 2 Gyngor y Canolbarth
- â'r gost leiaf o blith y 10 Cyngor Gwledig
- â'r gost 5ed leiaf o blith y 22 Cyngor

**Gwariant ar wasanaethau gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22, bod Ceredigion:**
- â'r gost leiaf o blith 2 Gyngor y Canolbarth
- â'r gost 3edd leiaf o blith y 10 Cyngor Gwledig
- â'r gost 6ed leiaf o blith y 22 Cyngor

**Cost casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref, bod Ceredigion:**
- â'r gost leiaf o blith 2 Gyngor y Canolbarth
- â'r gost leiaf o blith y 10 Cyngor Gwledig
- â'r gost ail leiaf o blith y 22 Cyngor

**Gwariant fesul cartref ar wasanaethau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, 2021-22, bod Ceredigion:**
- â'r gost ail leiaf o blith 2 Gyngor y Canolbarth
- â'r gost 8fed leiaf o blith y 10 Cyngor Gwledig
- â'r gost 19eg leiaf o blith y 22 Cyngor

Ar lefel Ceredigion, mae'r gwasanaeth wedi pennu cyfres o fesurau perfformiad er mwyn mesur a monitro'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'w drigolion, gyda'r nod o sicrhau bod dros 90% o'r llwybrau yn cael eu cyflenwi ar y diwrnod casglu rheolaidd, a 95% yn cael eu cyflenwi yn ystod yr wythnos gasglu reolaidd.

Mae'r canrannau a gofnodwyd, gan gynnwys y casgliadau yr amharwyd arnynt dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2022/23, wedi'u nodi isod:

| | **Chwarter 3 22/23** | **Chwarter 4** 22/23 | **Chwarter 1** 23/24 | **Chwarter 2** 23/24 | **Chwarter 3** 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **% ar y diwrnod** | 87.2% | 91.0% | 96.0% | 94.2% | 94.6% |
| **% yn yr wythnos** | 95.6% | 97.8% | 99.7% | 99.0% | 97.6% |

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Ddim yn berthnasol – mae'r adroddiad er gwybodaeth/i roi diweddariad yn unig

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol
**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol
**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol
**Atal:** Ddim yn berthnasol
**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol

**<u>Argymhelliad:</u>** Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi'r gwasanaeth rhagorol sy'n parhau i gael ei ddarparu yn ogystal â'r cynnydd a wneir gyda'r camau y cytunwyd arnynt o'r blaen.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>** Ddim yn berthnasol

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Rhodri Llwyd

**<u>Swydd:</u>** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

**<u>Dyddiad yr Adroddiad:</u>** 27 Chwefror 2024

**<u>Acronymau:</u>** CLILC/ WLGA – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rhaglen Gwella Gwastraff

# Data Cyllid Gwastraff Adroddiad 2021-22

Rhagfyr 2023



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**wlga.cymru**

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

**wlga.wales**

# Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u Cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod sylfaenol** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol ....... 6
   1.1 Canfyddiadau Allweddol ....... 7
2. Cyflwyniad ....... 12
3. Canfyddiadau Manwl ....... 14
   3.1 Cyfanswm Data Gwasanaeth ....... 14
   3.2 Defnyddio Grantiau ....... 16
   3.3 Gwastraff a Gasglwyd gan Gynghorau ....... 17
4. Costau Gwasanaeth Gwastraff Cartrefi ....... 19
5. Deunyddiau Ailgylchu Sych ....... 23
   5.1 Cyfanswm cost gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych ....... 23
   5.2 Casgliadau ....... 25
   5.3 Costau trosglwyddo ....... 28
   5.4 Costau trin ....... 28
   5.5 Incwm ....... 30
6. Gwasanaethau Gwastraff Organig ....... 32
6.1 Gwasanaethau Gwastraff Bwyd ....... 33
   6.1.1 Casglu gwastraff bwyd ....... 35
   6.1.2 Trin gwastraff bwyd ....... 36
6.2 Gwasanaethau Gwastraff Gwyrdd ....... 37
   6.2.1 Cynghorau sy’n Codi Tâl a Chynghorau nad ydynt yn Codi Tâl ....... 39
   6.2.2 Casglu Gwastraff Gwyrdd ....... 40
   6.2.3 Trin Gwastraff Gwyrdd ....... 42
7. Gwasanaethau Ailgylchu a Chompostio Ymyl Palmant wedi’u Cyfuno 43
8. Gwastraff Gweddilliol ....... 45
   8.1 Amlder Casglu Gwastraff Gweddilliol ....... 46
   8.2 Daliedyddion Gwastraff Gweddilliol ....... 48
   8.3 Gwastraff Gweddilliol – Tuedd Tymor Hwy ....... 49
   8.4 Casglu Gwastraff Gweddilliol ....... 50
   8.4 Trosglwyddo Gwastraff Gweddilliol ....... 51

**8.5 Trin/ Prosesu Gwastraff Gweddilliol** ........ 53
**8.6 Gwarediadau Tirlenwi Gwastraff Gweddilliol** ........ 54

**9. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ........ 58**

**10. Safleoedd Dod â Gwastraff ........ 62**

**11. Gwastraff Arall a Gasglwyd ........ 64**
**11.1 Gwasanaeth Gwastraff Masnachol** ........ 64
**11.2 Casgliadau Clytiau a Chynnyrch Hylendid Amsugnol eraill** ........ 65
**11.3 Gwastraff Clinigol** ........ 66


**12. Y Cam Nesaf ........ 67**

**Atodiad A: Manylion y Gwasanaethau Casglu**

# 1. Crynodeb Gweithredol

1. Drwy barhau â'r gwaith wnaeth ddechrau yn 2008/09, mae Rhaglen Gwella Gwastraff CLILC, gyda chefnogaeth pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru, wedi cynnal dadansoddiad o'r data cyllid gwastraff ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

2. Oherwydd yr oedi arferol o ran data, mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi data 2021/22 ac felly bydd yn cynnwys rhywfaint o effeithiau parhaol pandemig COVID-19 ar wasanaethau gwastraff Cynghorau ar draws Cymru.




3. Mae'r graff uchod yn gosod cost net fynegeiedig gwasanaethau Gwastraff Solid Trefol rhwng 2008/09 a 2021/22 gyda pherfformiad mynegeiedig dros yr un cyfnod o amser. Mae'r graff yn dangos, wrth addasu ar gyfer chwyddiant, y bu gostyngiad mewn costau net rhwng 2020/21 a 2021/22, y cynnydd cyntaf mewn termau real ers 2017/18. Mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau gwaelodlin y data, gan gynyddu o 35.6% i 65.2% yn 2021/22.

4. Rhwng 2020/21 a 2021/22, mae data cyllid yn dangos:

   - Bod cyfran ailgylchu Cymru wedi gostwng o 65.4% i 65.2%.
   - Bod 16 o'r 22 Cyngor wedi cyrraedd neu ragori ar y targed gofynnol statudol o 64%.
   - Bod 10 Cyngor wedi gweld cynnydd mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler ffigwr 2).
   - Bod costau gros wedi cynyddu 5.1% (1.2% mewn termau real)
   - Bod costau net wedi cynyddu 0.2% (gostyngiad o 3.8% mewn termau real)

5. Mae'r data a ddarparwyd gan Gynghorau trwy WasteDataFlow wedi mynd trwy broses sicrhau ansawdd gan y Rhaglen Gwella Gwastraff. Yna, cafodd y data ei ddadansoddi

gan ddefnyddio adnodd dadansoddi ariannol CLILC. Mae canlyniadau'r gwaith modelu wedi eu cynnwys yng nghorff yr adroddiad hwn. Ble bo'n bosibl, mae cymariaethau wedi eu llunio gyda data o flynyddoedd blaenorol.

**6.** Tra bod dadansoddiad lefel uchel yn cael ei ddarparu mewn rhai mannau, nid yw'r adroddiad yn dadansoddi gwahaniaethau cenedlaethol na lleol. Mae egluro *pam* bod newidiadau wedi digwydd yn rhan o'r broses feincnodi. Bydd adroddiadau meincnodi Rhaglen Gwella Gwastraff 2021/22 yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau gwastraff bwyd, gwasanaethau ailgylchu sych a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref[1]. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael ar y canolbwynt meincnodi ariannol gwasanaethau gwastraff.

## 1.1 Canfyddiadau Allweddol

Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant net ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru rhwng 2020/21 a 2021/22.  Mae'r golofn olaf yn dangos y gwahaniaeth mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant). Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y 12 mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 yn 3.98%. Dros y cyfnod hwn, gwelwyd gostyngiad o ran holl wariant gwasanaethau gwastraff cartrefi mewn termau real, ac eithrio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gyda chynnydd o 4.6%.

| **Gwariant ar wasanaethau gwastraff** | 2020/21 (£) | 2021/22 (£) | Gwahaniaeth (£) | Gwahaniaeth (%) | % Gwahaniaeth mewn Termau Real Chwyddiant= 3.98% |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant gros | 316,732,160 | 332,984,024 | 16,251,864 | 5.13% | 1.15% |
| Cyfanswm gwariant net | 283,348,945 | 283,826,107 | 477,162 | 0.17% | (-) 3.81% |
| Gwariant net ar wasanaethau gwastraff cartrefi[2] | 268,818,958 | 270,654,288 | 1,835,330 | 0.68% | (-) 3.3% |
| Ailgylchu deunyddiau sych (net) | 74,563,560 | 72,716,141 | (-) 1,847,419 | (-) 2.48% | (-) 6.46% |
| Gwastraff organig (net) | 55,866,396 | 56,189,247 | 322,851 | 0.58% | (-) 3.4% |
| Gwastraff gweddilliol (net) | 98,192,385 | 98,148,534 | (-) 43,850 | (-) 0.04% | (-) 4.02% |
| Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (net) | 39,244,209 | 42,627,675 | 3,383,466 | 8.62% | 4.64% |
| Safleoedd dod â gwastraff (net) | 952,408 | 972,691 | 20,283 | 2.13% | (-) 1.85% |

Mae'n bwysig nodi nad yw gwasanaethau gwastraff o reidrwydd yn cynyddu gyda chwyddiant, ond cânt eu gwthio'n bennaf gan gostau staff, cludiant a thanwydd a buddsoddiad cyfalaf, ac mae pob un ohonynt yn cael eu gwthio ar gyfraddau gwahanol.


[1] Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect meincnodi gwastraff yma.
[2] Gan gynnwys ailgylchu deunyddiau sych, gwastraff bwyd, gwastraff gwyrdd, gwastraff gweddilliol, gwasanaethau safleoedd dod â gwastraff a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

## Perfformiad a gwariant cyffredinol

Gwelwyd gostyngiad o **0.2** pwynt canran mewn perfformiad ailgylchu. Gwelwyd gostyngiad o ran gwariant net mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) dros yr un cyfnod. Gall y gostyngiad mewn gwariant fod i raddau fod o ganlyniad i ddychwelyd yn rhannol at 'normalrwydd' yn dilyn pandemig COVID-19, a arweiniodd at gostau ychwanegol i Gynghorau.

## Cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio

Yn gyffredinol, mae cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio wedi gostwng o 65.4% yn 2020/21 i **65.2%** yn 2021/22. Gwelodd **deg** Cyngor (allan o 22) gynnydd yn eu cyfradd ailgylchu, gydag **16** Cyngor yn cyflawni **64%** neu uwch. Mae'r graff isod yn dangos y cyfraddau ailgylchu cyfartalog a gyflawnwyd yn 2021/22, o'u grwpio yn ôl natur wledig. Bu i Gynghorau gwledig gyflawni cyfradd ailgylchu gyfartalog o **67.3%**; y gyfradd ailgylchu gyfartalog uchaf o gymharu â Chynghorau Bro (65.7%) a Chynghorau Trefol (63.7%). Mae'r graff yn dangos bod y gyfradd ailgylchu trefol gyfunol yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gallai hyn fod oherwydd bod fflatiau a thai dwysedd uchel gyda diffyg lle a chyfleusterau gwastraff cymunedol, gan gynnwys tai amlfeddiannaeth a phoblogaeth uchel o fyfyrwyr, sy'n fwy anodd i'w cyrraedd ac yn feysydd targed problemus i Gynghorau. Gall natur wledig a demograffig-gymdeithasol fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau ailgylchu, ac mae'r ddau y tu hwnt i reolaeth Cyngor.




## Gwariant Gros

Bu i'r gwariant gros gynyddu o **£316,732,160** i **£332,984,024**[3], sy'n gynnydd o **5.1%.** Gwelwyd llai o gynnydd o ran gwariant gros mewn termau real, sef cynnydd o **1.2%.**

[3] Mae'r ffigyrau hyn yn dueddol o fod rywfaint yn uwch gan fod nifer fechan o Gynghorau heb gynnwys gwariant cysylltiedig â Covid.

## Gwariant Net

Roedd y gwariant net ar wasanaethau gwastraff yn **£283.8 miliwn**, sy'n gynnydd ymylol o **£477,000** o gymharu â 2020/21. Gwelwyd gostyngiad o **3.8%** o ran gwariant net mewn termau real. Dyma'r gostyngiad cyntaf mewn termau real ers 2017/18.

## Incwm

Roedd y gwahaniaeth rhwng gwariant net a gros yn sylweddol uwch yn ystod 2021/22, gan fod mwy o incwm yn cael ei dderbyn gan Gynghorau. Gwelwyd cynnydd o **£6.3 miliwn** mewn incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu sych, yn sgil adferiad y farchnad ailgylchu yn dilyn pandemig Covid-19, a arweiniodd at gyfraddau marchnad uwch. Gwelwyd cynnydd mewn incwm o'r gwasanaethau gwastraff masnachol hefyd wrth i wasanaethau ailddechrau ar ôl y pandemig.

## Gwasanaethau Gwastraff Cartrefi – Gwariant Net

Yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd o **0.68%** o ran gwariant net ar wasanaethau gwastraff cartrefi[4] (deunyddiau ailgylchu sych, gwastraff organig, gwastraff gweddilliol, canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a safleoedd dod â gwastraff), gan gynyddu i **£270.7 miliwn**. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o **tua £1.8 miliwn** mewn gwariant. Gwelwyd union ostyngiad o **3.3%** o ran gwariant mewn termau real.

## Ailgylchu Deunyddiau Sych ar Ymyl y Palmant

Bu i gostau deunyddiau ailgylchu sych ymyl palmant ostwng **£1.8 miliwn (2.5%),** i **£72.7 miliwn.** Gwelwyd gostyngiad pellach o ran gwariant net mewn termau real, sef gostyngiad o **6.5%.** Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad hefyd o bron i **13,000 tunnell (4%),** yng nghrynswth y deunyddiau ailgylchu sych a gasglwyd.

## Gwasanaethau Gwastraff Organig

Gwelodd y gwasanaethau gwastraff organig (Bwyd a Gwyrdd) gynnydd ymylol o **0.6%** yn unig mewn gwariant, o £55.9 miliwn i **£56.2 miliwn** (net). O ystyried chwyddiant, gwelwyd gostyngiad o **3.4%** o ran gwariant net mewn termau real.

Gwelwyd cynnydd o **£1.7 miliwn** o ran gwariant net **gwastraff bwyd**, a chafodd 4,760 tunnell yn llai o wastraff bwyd ei gasglu, o gymharu â 2020/21.

Gwelwyd gostyngiad o **£1.4 miliwn** o ran gwariant net **gwastraff gwyrdd**, a chafodd 5,318 tunnell yn llai o wastraff gwyrdd ei gasglu o gymharu â 2020/21.

Mae'r gostyngiad cyffredinol mewn tunelledd gwastraff organig yn debygol o fod oherwydd cynnydd yn y flwyddyn flaenorol yn sgil y pandemig, pan oedd rhaid i bobl aros gartref. Wrth i bobl ddechrau dychwelyd i'r gwaith, arweiniodd hyn at lai o wastraff bwyd a gwastraff gwyrdd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant.

[4] Nid yw'r ffigwr yn cynnwys; gwastraff masnachol, gwastraff clinigol, caffael dulliau trin gwastraff, ffioedd ymgynghori, costau codi ymwybyddiaeth a chostau cysylltiedig â GST arall a gofnodir yn rhywle arall.

## Gwasanaethau Gwastraff Gweddilliol

Ni fu llawer o newid o ran gwariant ar wasanaethau gwastraff gweddilliol, a ostyngodd o **£44,000** i **£98.1 miliwn**. Gwelwyd gostyngiad o **4%** o ran gwariant net mewn termau real. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o bron i **30,000 tunnell** yng nghrynswth y gwastraff gweddilliol a gasglwyd.

Yn 2021/22, gwelwyd y gwariant net isaf ar gofnod o ran gwarediadau tirlenwi, sy'n dangos tuedd tymor hwy.

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Bu i wariant canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref gynyddu o £39.2 miliwn i **£42.6 miliwn,** sy'n gynnydd o **8.6%,** fodd bynnag, o ystyried chwyddiant, mae'r cynnydd yn gostwng i **4.6%** mewn termau real. Mae'r cynnydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â gostyngiad y flwyddyn flaenorol, yn sgil cau canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref dros dro yn ystod y pandemig. Gwelwyd cynnydd o **3%** yn y gyfran o wastraff cartrefi a dderbyniwyd mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, a gynyddodd i **24%.**

## Safleoedd Dod â Gwastraff


Gwelwyd cynnydd o **£20,000** mewn gwariant safleoedd dod â gwastraff, sy'n gynnydd o **2.1%.** O ystyried chwyddiant, gwelwyd gostyngiad o **1.85%** o ran gwariant net mewn termau real. Gwelwyd gostyngiad o **481 tunnell (5%),** yn y crynswth a gasglwyd trwy'r rhwydwaith safleoedd dod â gwastraff, gan barhau â thuedd tymor hwy.

## Sgil-gynhyrchion Gwastraff Cartrefi

Ar y cyfan, gwelwyd gostyngiad o **0.5%** mewn sgil-gynhyrchion gwastraff cartrefi, o **1,313,339 tunnell** i **1,306,273 tunnell**. Yn 2021/22, roedd ffigyrau sgil-gynhyrchion gwastraff cartrefi yn debyg iawn i'r rhai cyn y pandemig (2019/20), sy'n arwydd o ddychwelyd at 'normalrwydd'. Mae data o ffurflenni cyllid WasteDataFlow yn awgrymu bod y pandemig wedi tarfu ar hynt y targed i leihau gwastraff cartrefi yng Nghymru o **1,289,384 tunnell**[5] ar gyfer 2021/22. Gyda llawer yn debygol o barhau i weithio o gartref yn y dyfodol, gan arwain at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant, efallai y bydd yn fwy heriol i gyrraedd targedau lleihau gwastraff cartrefi yn y dyfodol.

Mae'r graff isod yn dangos y gwahaniaeth mewn tunelledd a gasglwyd rhwng 2020/21 a 2021/22 ar yr elfennau gwasanaeth cartrefi. Rhwng 2020/21 a 2021/22, at ei gilydd, gwelwyd **gostyngiad** o **52,612 tunnell** o ran tunelli ymyl palmant, tra gwelwyd **cynnydd** o **46,026 tunnell** o ran tunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, sy'n dangos newid rhwng tunelledd ymyl palmant a thunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae'r graff yn awgrymu, wrth i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ailagor yn dilyn y pandemig, bod pobl wedi mynd â mwy o wastraff i'r canolfannau hynny, a bod llai yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant.

[5] Ffynhonnell: Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Llywodraeth Cymru




## Sgil-gynhyrchion Gwastraff Solid Trefol

Gwelwyd cynnydd o **1.35%,** mewn sgil-gynhyrchion Gwastraff Solid Trefol (GST), o **1,488,253 tunnell** i **1,508,370 tunnell**. Fodd bynnag, mae sgil-gynhyrchion 2021/22 yn is na'r ffigwr o **1,512,105 tunnell** cyn y pandemig (2019/20), gan barhau â thuedd tymor hwy o ran lleihau gwastraff.

## Deunyddiau a Ailgylchir ar Ymyl y Palmant

Mae faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu ar ymyl y palmant (h.y. casgliadau ailgylchu gwastraff cartrefi) wedi gostwng. Ceir crynodeb o'r newidiadau hyn yn y tabl isod.

| | Pwyntiau % ailgylchu a gyfrannodd at berfformiad ailgylchu GST 2020/21 | Pwyntiau % ailgylchu a gyfrannodd at berfformiad ailgylchu GST 2021/22 | Newid mewn pwynt % |
|---|---|---|---|
| Ailgylchu sych | 22.1% | 21% | (-) 1.1% |
| Gwastraff bwyd | 9.8% | 9.4% | (-) 0.4% |
| Gwastraff gwyrdd | 7.9% | 7.5% | (-) 0.4% |
| Cyfanswm | 39.8% | 37.9% | (-) 1.9% |

# 2. Cyflwyniad

Caiff y Rhaglen Gwella Gwastraff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bodoli ers 2007. Nod y gwaith ar hyn o bryd yw cefnogi Cynghorau i wella effeithlonrwydd gwasanaethau gwastraff a meincnodi amrywiadau cost er mwyn nodi sut y gellir darparu gwasanaethau am gost is wrth wella perfformiad.

## Y Broses

Mae data gwariant gwastraff Cyngor wedi bod yn cael ei gasglu'n gyson bob amser, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifydda Gwerth Gorau. Mae WasteDataFlow (cronfa ddata ar gyfer casglu data tunelledd o weithgareddau gwastraff) wedi'i haddasu yng Nghymru i dderbyn data tunelledd a data ariannol gwastraff, gan greu un pwynt mynediad ar gyfer cofnodi data. Unwaith y caiff data cyllid a thunelledd ei gofnodi ar y system, gellir llunio cyfres o adroddiadau.

Mae'r data a gofnodir ar WasteDataFlow gan Gynghorau yn cael ei gymharu yn erbyn ffigyrau Sefyllfa Refeniw Derfynol rheoli gwastraff. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd angen adolygu data a echdynnwyd o'r WasteDataFlow er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau. Cynhaliwyd y broses hon rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022. Mae gwaith ar y gweill gan y tîm Gwella Gwastraff ar y cyd â Chynghorau unigol.

Mewn rhai achosion, gall ffigyrau Cynghorau ar wahân ddangos anghysondebau ac efallai na fyddant yn rhoi'r darlun cyfan; gall hyn fod oherwydd dosraniad. Gall dosraniad ddigwydd rhwng gwasanaethau a rennir a rhwng y broses casglu, trosglwyddo a thrin.

Mae pob un o'r 22 Cyngor yn cael eu cynrychioli yn yr adroddiad hwn; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai amcangyfrif yw ffigyrau Cyngor Wrecsam ar gyfer 2021/22.

## Chwyddiant

Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y 12 mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 yn 3.98%. Dyma fesur chwyddiant ym mhrisiau defnyddwyr a chostau byw. Cyfeirir at ffigyrau yn yr adroddiad hwn sy'n ystyried chwyddiant fel gwariant mewn 'termau real'.

## Pandemig COVID-19 a gwariant

Roedd adroddiad cyllid gwastraff y llynedd (2020/21) yn dangos effaith y pandemig ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru, lle'r oedd Cynghorau wedi addasu eu harferion gwaith a'u systemau er mwyn cadw at y cyfyngiadau. Roedd cost ariannol ynghlwm â'r cyfyngiadau hyn i Gynghorau. Wrth ddarllen a chymharu'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio'r prif newidiadau ac effeithiau i Gynghorau yn ystod 2020/21 a 2021/22. Mae'r prif newidiadau ac effeithiau wedi'u rhestru isod:

- Angen cerbydau ac aelodau o staff ychwanegol i gadw at y rheoliadau cadw pellter cymdeithasol
- Gweithredu systemau hebrwng
- Angen Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ychwanegol
- Oriau agor byrrach/ cau canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref dros dro
- Gweithredu systemau archebu ar gyfer canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref mewn sawl Cyngor
- Wrth flaenoriaethu, cafodd rhai meysydd gwasanaeth eu cwtogi neu eu hatal mewn rhai Cynghorau
- Cynnydd yn nifer y gweithwyr asiantaeth oherwydd salwch staff, hunan-ynysu a gwarchod
- Cynnydd yn y nifer sy'n ailgylchu ar ymyl y palmant/ tunelledd, gan fod ysgolion ar gau a phreswylwyr yn gorfod aros gartref
- Gostyngiad mewn incwm o ran gwerthiant deunyddiau ailgylchu sych, oherwydd gostyngiad yn y pris fesul tunnell am ddeunyddiau
- Llai o incwm o wastraff masnachol
- Llai o allu i orfodi a chodi ymwybyddiaeth
- Mwy o Gynghorau yn cael gwared ar wastraff trwy ei droi'n Ynni

Oherwydd effeithiau'r pandemig, mewn rhai achosion, mae'n ddefnyddiol cymharu data rhwng 2019/20 a 2021/22 (cyn ac ar ôl y pandemig).

Mae data 2021/22 yn dangos siwrne Cynghorau Cymru wrth ddychwelyd at 'normalrwydd' yn dilyn y pandemig yn 2020/21. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai o effeithiau'r pandemig wedi parhau i 2021/22, gyda rhai addasiadau i wasanaethau yn parhau i 2021/22, yn benodol systemau archebu ar gyfer canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Gyda llawer o bobl yn debygol o barhau i weithio o gartref yn y dyfodol, efallai na fydd perfformiad, gwariant a gwasanaeth safonol yn dychwelyd i'r hyn oedd yn arferol cyn y pandemig.

Yn yr un modd â'r llynedd, roedd Cynghorau'n gymwys i wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwrthbwyso rhywfaint o'r costau ychwanegol hyn yn rhannol. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys gwariant ychwanegol mewn perthynas ag ymateb Cynghorau i'r pandemig COVID-19. Nid oedd nifer fechan o Gynghorau yn gallu cynnwys gwariant cysylltiedig â Covid yn eu ffurflenni cyllid WasteDataFlow ac ni fu'n rhaid i rai Cynghorau ysgwyddo unrhyw gostau o ran Covid.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Cynghorau lle nad yw gwariant Covid wedi cael ei gynnwys yn y ffigyrau yn yr adroddiad hwn.

| Cynghorau | Cyfanswm Gwariant Cyffredinol Covid |
|---|---|
| Blaenau Gwent | tua £521,000 |
| Ceredigion | tua £250,000 |
| Torfaen | Ddim ar gael |
| Wrecsam | Ddim ar gael |

# 3. Canfyddiadau Manwl


## 3.1 Cyfanswm Data Gwasanaeth

1. Roedd y gwariant gros cyffredinol ar wasanaethau gwastraff yn ystod 2021/22 yn £332,984,024. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £16 miliwn, o gymharu â'r ffigwr o £316,732,160 yn 2020/21, sy'n gynnydd o 5.1%. Gwelwyd cynnydd llai o 1.2% o ran gwariant gros mewn termau real.

2. Gwelwyd cynnydd yn y cyfanswm gwariant net am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, i £283,826,107. Fodd bynnag, o ystyried chwyddiant, gwelwyd gostyngiad o 3.8% o ran cyfanswm gwariant net mewn termau real.

3. Rhwng 2020/21 a 2021/22, bu i'r incwm mae Cynghorau yn ei dderbyn o werthu deunyddiau ailgylchu sych fwy na dyblu, gan gynyddu o £5.9 miliwn yn 2020/21 i £12.2 miliwn yn 2021/22. Roedd hyn yn sgil y cynnydd a'r adferiad yng nghyfraddau'r farchnad yn dilyn y pandemig.

4. Mae Ffigwr 1 yn dangos sut mae gwariant net ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru wedi newid ers i'r prosiect ariannol ddechrau yn 2008/09. Mae costau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ac wedi eu mynegeio yn defnyddio data 2008/09 fel gwaelodlin. Mae gwariant mewn termau real wedi aros yn weddol sefydlog dros y pedair blynedd ar ddeg diwethaf. Yn fwy diweddar, rhwng 2018/19 a 2020/21, bu i wariant gynyddu o un flwyddyn i'r llall, ac yn 2020/21, gwelwyd y gwariant net mynegeiedig mwyaf ar gofnod ers 2012/13. Mae hyn yn dangos effaith ariannol y pandemig ar wasanaethau gwastraff yn ystod 2020/21. Gwelwyd gostyngiad mewn termau real yn 2021/22, sy'n adlewyrchu dychwelyd at 'normalrwydd' yn dilyn y pandemig. Mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol, gan gynyddu o 35.6% yn 2008/09 i 65.2% yn 2021/22. Fodd bynnag, mae Ffigwr 1 yn amlygu y bu'r gyfradd ailgylchu yn weddol gyson dros y 3 blynedd diwethaf. Gallai'r cysondeb fod oherwydd ymateb Cynghorau i'r pandemig, pan gafodd cyfyngiadau eu cyflwyno, gan gynnwys rhai gwasanaethau a gafodd eu hatal.




**Ffigwr 1 – Cyfanswm costau net**

5. Gwelwyd gostyngiad o 0.2% yn y gyfradd ailgylchu rhwng 2020/21 a 2021/22. Gwelwyd gostyngiad o 2% yn y pwyntiau canran o wastraff a gafodd ei ailgylchu a'i gompostio ar ymyl y palmant. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn sgil-gynhyrchion rhwng gwasanaethau yn dilyn pandemig COVID-19.

6. Mae mwyafrif (95%) y cyfanswm gwariant net yn deillio o ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i ddeiliaid cartrefi: Ailgylchu Deunyddiau Sych, Gwastraff Organig, Gwastraff Gweddilliol, Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a Safleoedd Dod â Gwastraff.

7. Cafodd cyfanswm y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a ddyrannwyd yn erbyn gwasanaethau gwastraff yn 2021/22 ei ostwng i £16.4 miliwn, sy'n ostyngiad o £1 miliwn.


8. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwariant net gwastraff cartrefi pob Cyngor rhwng 2020/21 a 2021/22. Dangosodd deg Cyngor ostyngiad mewn gwariant net, ond gwelwyd cynnydd gan ddeuddeg ohonynt. Nid yw'r ymarfer casglu data yn pennu "pam" bod y newidiadau hyn wedi eu gwneud, ond bwriedir, drwy'r broses feincnodi a hwyluswyd gan y CSS, ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio ar gostau gwasanaeth ymhellach.




**Ffigwr 2 Cyfanswm gwariant gwastraff cartrefi rhwng 2020/21 a 2021/22**

## 3.2 Defnyddio Grantiau

9. Mae'r graff yn Ffigwr 3 isod yn dangos cyfanswm gwariant net pob Cyngor ar wasanaethau gwastraff yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Cynrychiolir y cyfraniad a wnaed gan ddyraniad grant fel ardal wedi'i 'llinellu'. Mae gwariant wedi'i ddangos ar sail cost fesul cartref.





**Ffigwr 3 – Cyfanswm Costau System fesul cartref 2021/22**

10. Mae'r graff hwn yn dangos, ar sail fesul cartref, bod grantiau yn cael eu dosbarthu yn weddol gyfartal ar draws y grŵp. Gan fod y graff yn dangos grantiau refeniw yn unig (nid yw grantiau cyfalaf yn cael eu dangos), bydd Cynghorau sy'n priodoli cyfran uwch o'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy i brosiectau cyfalaf yn dangos gwerth is ar gyfer grant refeniw fesul cartref o gymharu â'r grŵp cyfan, tra gall Cynghorau sy'n derbyn grantiau ychwanegol ar wahân i'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, ddangos lefelau cymharol uwch o grant. Mae'n bwysig nodi y gallai rhai cyfansymiau grantiau Cynghorau gynnwys grantiau caledi Covid, grantiau colli incwm a grantiau economi gylchol gan Lywodraeth Cymru.

11. Mae balans y gwariant net yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw a ddyrannwyd i bob Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae'r graff yn Ffigwr 4 yn dangos gostyngiad yn lefel y cyllid trwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy dros y 4 blynedd diwethaf, wrth i wariant cyffredinol gynyddu o un flwyddyn i'r llall. Ynghyd ag effaith chwyddiant, costau cynyddol

[6] Grantiau = Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn ogystal â grantiau eraill a dderbyniwyd e.e. cymorth â chaffael, Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol, RCAF, Cronfa Galedi Covid, Covid - colli incwm.

ynni a galw cynyddol am wasanaethau ac ati, mae Cynghorau lleol wedi darparu mwy o adnoddau ar gyfer y gwasanaethau eu hunain, gan roi rhagor o bwysau ar gyllidebau gwasanaethau. Bydd yn hanfodol i Gynghorau wneud arbedion effeithlonrwydd wrth i'r bwlch rhwng gwariant a chyllid grant gynyddu. Yn y dyfodol, dylai Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gyfrannu at gynnal gwasanaethau sy'n ymestyn yr egwyddor mai'r 'Llygrwr sy'n Talu', gan olygu y gallai arian cyhoeddus gael ei wario ar wasanaethau eraill.





**Ffigwr 4 – Gwariant gwasanaeth net GST a'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy**

## 3.3 Gwastraff a Gasglwyd gan Gynghorau

12. Mae'r graffiau canlynol yn dangos cyfran y ffrydiau ailgylchu/ gwastraff a reolir ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ôl crynswth. Mae hyn yn rhoi cyd-destun ar gyfer asesu'r costau.


13. Gwastraff gweddilliol ymyl palmant, deunyddiau ailgylchu sych a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yw'r ffynonellau mwyaf o wastraff cartrefi a gasglwyd yn ystod 2021/22. Roedd gwastraff gweddilliol yn cyfrif am 31% o grynswth, sy'n ostyngiad o 2% ers 2020/21; roedd deunyddiau ailgylchu sych yn cyfrif am 24%, sy'n ostyngiad o 1% ers 2020/21 ac roedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn cyfrif am 24%, sy'n gynnydd o 3% ers 2020/21. Mae'r cynnydd mewn sgil-gynhyrchion canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn debygol o fod o ganlyniad i ailagor safleoedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar ôl eu cau dros dro oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae ffigwr 5 isod yn dangos cyfran cyfanswm y gwastraff a gasglwyd fesul cartref o bob un o'r meysydd gwasanaeth gwastraff cartrefi.




**Ffigwr 5 - Ffynhonnell y gwastraff a gasglwyd**[7]

14. Mae ffigwr 6 isod yn dangos cyfran y gwariant cyffredinol gan bob un o'r meysydd gwasanaeth gwastraff cartrefi. Gwastraff gweddilliol yw'r prif faes gwariant o hyd, sy'n cyfrif am rhwng 22% a 54%. Mae'r amrywiad eang hwn yn cael ei ddylanwadu gan y tunelledd gwastraff gweddilliol a gasglwyd ac argaeledd dewisiadau trin ar ôl eu casglu. Yn ystod 2021/22, roedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn cyfrif am tua 16% o gyfanswm gwariant, wrth ymdrin â chyfran sylweddol (24%) o'r holl wastraff cartrefi a gasglwyd, sy'n awgrymu bod canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar gyfartaledd yn ffordd gost effeithiol o gasglu deunyddiau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried effeithiau cyffredinol carbon ar draws yr economi, nac effeithiau demograffig cymdeithasol posibl (e.e. efallai na fyddai pobl heb fynediad at geir yn gallu defnyddio canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref).

[7] Nid yw'n cynnwys gwastraff masnachol, clinigol, swmpus, cynnyrch hylendid amsugnol na GST arall.




**Ffigwr 6 - Gwariant gwasanaeth gwastraff**

# 4. Costau Gwasanaeth Gwastraff Cartrefi


15. Mae'r data canlynol yn cymharu gwariant ar wasanaethau gwastraff cartrefi ar draws Cynghorau yng Nghymru. Diffinnir cost Gwasanaeth Gwastraff Cartrefi fel cyfanswm crynswth y gost sy'n gysylltiedig ag ailgylchu deunyddiau sych ar ymyl y palmant, gwastraff bwyd ymyl palmant, gwastraff gwyrdd ymyl palmant, gwastraff gweddilliol, safleoedd dod â gwastraff a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae pob elfen yn cynnwys costau casglu, trosglwyddo, trin a gwaredu gwastraff. Nid yw costau cysylltiedig â gwastraff masnachol, ailgylchu masnachol, gwastraff clinigol, gwastraff swmpus, caffael dulliau trin gwastraff, GST arall a chostau codi ymwybyddiaeth wedi cael eu cynnwys.

16. Mae'r graffiau yn dangos costau ar sail fesul cartref a fesul tunnell. Yn ychwanegol, mae codau lliw graffiau yn dangos a yw awdurdod yn cael ei ystyried yn Drefol, Gwledig neu yn y Cymoedd, mae codio lliw pellach ar gyfer gwasanaethau ailgylchu deunyddiau sych yn dangos proffil gwasanaeth casglu'r awdurdod. Mae lefel y grant a ddyrannwyd i bob maes gwasanaeth fesul Cyngor i'w gweld fel ardal wedi'i 'llinellu' ar y siart. Gan y bydd incwm a gynhyrchwyd gan wasanaethau yn tueddu i amrywio yn ôl y math o wasanaethau, mae'r gwariant incwm net a dderbyniwyd wedi'i ddangos yn y graffiau. Yn ogystal â data cost, dangosir perfformiad o ran % GST sydd wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, a chaiff ei ddynodi gan y llinellau toriad oren ar y siart. Ar gyfer yr holl


wasanaethau gwastraff cartrefi, heblaw am wastraff gweddilliol, yn ddelfrydol, rydym eisiau gweld gwerth uchel wedi'i gofnodi yn erbyn perfformiad (llinell oren) a gwerth isel wedi'i gofnodi ar gyfer cost gwasanaeth (bar soled) – mae'n debygol, po fwyaf y bwlch, y mwyaf effeithiol ac effeithlon y gwasanaeth.

17. Nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a grantiau llai eraill wrth eu dyrannu yn erbyn meysydd gwasanaeth yn WasteDataFlow. Felly, gall cyfraniad grant a ddangosir yn y graffiau canlynol gynnwys grantiau eraill yn ogystal â'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

18. Mae Ffigwr 7 a Ffigwr 8 yn dangos cyfanswm gwariant net ar wasanaethau gwastraff cartrefi yng Nghymru. Mae costau yn cael eu dangos fel cost fesul cartref a chost fesul tunnell.





**Ffigwr 7 - Cyfanswm cost gwasanaeth gwastraff cartrefi fesul cartref**




**Ffigwr 8 – Cyfanswm cost gwasanaeth gwastraff cartrefi fesul tunnell**

19. Roedd y gwariant net cyffredinol ar wasanaethau gwastraff cartrefi yn ystod 2021/22 yn £270,654,288. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £1,835,330 mewn gwariant; 0.7% o gymharu â 2020/21. Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y 12 mis hyd at fis Ebrill 2022 yn 3.98%, felly mae hyn yn cynrychioli union ostyngiad o 3.3% mewn termau real. Dros yr un cyfnod, bu i'r gyfradd ailgylchu gyffredinol ar gyfer Cymru ostwng o 65.4% i 65.2%.



**Ffigwr 9 – Cost gwasanaeth gwastraff cartrefi ers 2008/09**


20. Mae'r duedd tymor hwy o ran perfformiad a chostau gwasanaeth gwastraff cartrefi i'w gweld yn Ffigwr 9 ac nid yw'n annhebyg i Ffigwr 1 (cyfanswm costau gwasanaeth gwastraff dros amser). Mae gwariant ar gostau gwasanaeth gwastraff cartrefi wedi parhau'n gymharol sefydlog dros y 14 mlynedd diwethaf. Yn dilyn cyfnod lle'r oedd costau yn gostwng o un flwyddyn i'r llall (2013/14 – 2017/18), dechreuodd costau gynyddu rhwng 2018/19 a 2020/21, ac yn 2020/21 gwelwyd y cynnydd mynegeiedig mwyaf ers 2008/09. Mae hyn eto yn dangos effaith ariannol y pandemig ac mae'r gostyngiad o ran gwariant mewn termau real yn ystod 2021/22 yn adlewyrchu dychwelyd at 'normalrwydd'. Fel y soniwyd eisoes, mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau gwaelodlin y data.

# 5. Deunyddiau Ailgylchu Sych


21. Mae'r graffiau canlynol yn dangos y costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau ailgylchu deunyddiau sych a ddarperir gan Gynghorau ar sail cost fesul cartref a chost fesul tunnell. Mae perfformiad gwasanaeth, o ran crynswth y deunyddiau sych a gasglwyd fel cyfran o gyfanswm GST, hefyd yn cael ei ddangos fel llinellau oren ar y siart, a nodir gan ddefnyddio'r echelin ar ochr dde'r graff.

## 5.1 Cyfanswm cost gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych

22. Mae Ffigwr 10  Ffigwr11 yn dangos cyfanswm cost darparu gwasanaeth ailgylchu ymyl palmant. Mae'r costau a ddangoswyd yn swm net o unrhyw incwm a dderbyniwyd. Mae'r data yn cynnwys costau casglu, trosglwyddo, trin a gwaredu gwastraff. Mae'n bwysig nodi y gall rhai costau gynnwys gwariant ychwanegol o ran Covid. Mae codau lliw yn dangos y math o system casglu sydd ar waith gan Gyngor a chyfraniad a wnaed gan grant yn cael ei gynnal. Mae'r cyfraniad yn uwch o'i gymharu â gwariant cyffredinol gan fod gwariant grant wedi'i dargedu at wasanaethau ailgylchu a'i wahardd o ran gwasanaethau gwastraff gweddilliol.




**Ffigwr 10 – Cost gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych fesul cartref**




**Ffigwr11 – Cost gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych fesul tunnell**

23. Mae'n amlwg o'r graffiau bod cost a pherfformiad yn amrywio'n sylweddol. Yn ddelfrydol, dylai gwasanaethau gyflawni perfformiad uchel, o ran ailgylchu crynswth, wrth ddangos y gost isaf posibl. Er enghraifft, mae gwasanaeth ailgylchu sych Pen-y-Bont ar Ogwr yn cyfrannu'n sylweddol at eu cyfradd ailgylchu gyffredinol, gyda 27% o gyfanswm GST yn cael ei gasglu drwy eu cynllun casglu ymyl palmant, tra bod cost gwasanaeth ymhlith un o'r rhai isaf a welwyd ar draws y grŵp, sef £24 fesul cartref. Mae'n werth nodi nad yw Cynghorau sydd â chontractwyr preifat bob amser yn gallu darparu dadansoddiad o gostau, ac felly efallai nad yw'r rhai a gyflwynir yn cynnwys yr holl gostau.

24. Mae ystod y gwerthoedd a geir yn y data rywfaint yn uwch nag yn 2020/21. Mae'r gost ganolrifol fesul cartref wedi cynyddu o £50.16 i £51.16 fesul cartref. Gwelwyd cynnydd yn y gost ganolrifol fesul uned o grynswth hefyd o £221 i £232 fesul tunnell.


25. O'r data craidd mae hefyd yn bosibl cymharu gwariant cyffredinol ailgylchu deunyddiau sych 2021/22 gyda 2020/21:

| | 20/21 | 21/22 | % y newid | Cost fesul cartref 21/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Ailgylchu sych** | £74,563,560 | £72,716,141 | -2.48% | £50 |

26. Gwelwyd gostyngiad o 2.48% mewn gwariant ar wasanaethau deunyddiau ailgylchu sych yn ystod 2021/22. Er y bu gostyngiad o ran gwariant, gwelwyd lleihad hefyd yng

nghrynswth y deunyddiau a gasglwyd dros yr un cyfnod. Bu i'r crynswth a gasglwyd ostwng bron i 13,000 tunnell, mae hynny'n ostyngiad o 4%. Mae'r gostyngiad yn y crynswth a gasglwyd yn debygol o fod oherwydd cynnydd sylweddol y flwyddyn flaenorol; yn ystod y pandemig, roedd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn ei gwneud yn ofynnol i filiynau o bobl aros gartref, gan arwain at gynnydd mewn tunelledd ymyl palmant. Yn 2021/22, cafodd y cyfyngiadau eu codi, gyda phobl yn dychwelyd yn rhannol at 'normalrwydd', a amlygir gan y gostyngiad yn y deunyddiau ailgylchu sych a gasglwyd ar ymyl y palmant.

27. Mae'r duedd tymor hwy o ran costau deunyddiau ailgylchu sych ymyl palmant i'w gweld yn Ffigwr 12. Mae'r graff yn dangos gostyngiad sylweddol mewn gwariant yn ystod 2021/22, yn dilyn cynnydd mawr y flwyddyn flaenorol (2020/21) yn sgil y pandemig. O edrych ar y duedd tymor hwy, ymddengys bod perfformiad ailgylchu yn gysylltiedig â gwariant ar y gwasanaeth, ond, nid dyma'r achos dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny fwyaf tebygol gan y bu'n rhaid i Gynghorau ymateb i gyfyngiadau'r pandemig.





**Ffigwr 12 – Cost ailgylchu deunyddiau sych ymyl palmant ers 2008/09**

## 5.2 Casgliadau


28. O'r data, mae'n bosibl cynllunio costau elfen unigol o'r gwasanaeth. Mae graffiau 13 ac 14 yn dangos cost casglu deunyddiau ailgylchu sych ar sail net fesul cartref a fesul tunnell o unrhyw incwm. Mae systemau casglu yn amrywio ar draws y grŵp, mae codau lliw yn dangos y math o system casglu oedd ar waith yn ystod 2020/21. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth yn ystod 2020/21.

29. Mae'r costau sy'n deillio o gasglu'r deunyddiau ailgylchu sych yn cyfrif am y rhan fwyaf o gostau cyffredinol y gwasanaeth; sef 83% o gost gwasanaeth yn 2021/22, cynnydd o 8 pwynt canran ers 2020/21. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn gwerthiant deunyddiau ailgylchu sych yn ystod 2021/22.





**Ffigwr 13 – Cost casglu deunyddiau ailgylchu sych fesul cartref.**

30. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o ran costau gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu sych, o £56.2 miliwn i £60.2 miliwn. Mae'r graff yn dangos bod y gost fesul cartref yn amrywio'n sylweddol ar draws Cynghorau, o £18 i £71 fesul cartref. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at amrywiadau cost. Gall y ffactorau hyn gynnwys dulliau casglu, natur wledig, amlder, cerbydau, gwasanaethau mewnol/ allanol ac ati. Mae'n werth nodi bod gwasanaethau casglu rhai Cynghorau yn cael eu darparu gan gyflenwyr allanol ac nad oes modd cael dadansoddiad llawn o gostau bob amser.




**Ffigwr 14 – Cost casglu deunyddiau ailgylchu sych fesul tunnell a gasglwyd.**

31. Mae Ffigwr 15 isod yn dangos mai cynghorau trefol oedd â'r gost net ganolrifol isaf fesul cartref o ran costau casglu deunyddiau ailgylchu sych yn 2021/22, sef £32 fesul cartref. O ran cynghorau bro a chynghorau gwledig, roedd y ffigyrau'n uwch, sef £41 fesul cartref a £51 fesul cartref, yn y drefn honno. Y canolrif ar gyfer Cymru oedd £45 fesul cartref. Roedd Cynghorau gwledig £10 yn ddrytach fesul cartref na chanolrif Cymru, sy'n awgrymu y gall natur wledig, ffactor sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, fod yn ffactor sylweddol o ran costau casglu uwch. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd dwysedd y boblogaeth, milltiredd a chostau cludiant ac ati. Mae'n werth nodi bod chwech allan o'r deg o gynghorau gwledig yn cydymffurfio â'r glasbrint yn ystod y cyfnod hwn.





**Ffigwr 15 – Cost casglu deunyddiau ailgylchu sych fesul cartref**

## 5.3 Costau trosglwyddo


32. Yn ôl y data a ddarparwyd, ychydig o Gynghorau sy'n ysgwyddo costau drwy drosglwyddo deunyddiau ailgylchu ar ôl eu casglu. Mewn rhai achosion, mae trefniadau dan gontract yn golygu bod y costau hyn wedi'u cynnwys gyda chostau trin. Mae costau trosglwyddo yn isel mewn perthynas â chost gwasanaeth cyffredinol. Ar gyfer byrdra, nid yw siartiau sy'n manylu ar gostau trosglwyddo wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad, ond maent ar gael ar gais.

## 5.4 Costau trin

33. Mae Ffigwr 16 a Ffigwr 17 yn dangos y costau a ysgwyddir o ran trin y deunyddiau ailgylchu sych a gasglwyd. Mae costau yn cael eu dangos fel cost fesul cartref a chost fesul tunnell. Gellir diffinio costau triniaeth fel cost trin a/neu wahanu deunydd a gasglwyd, megis trin deunydd mewn Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau.




**Ffigwr 16 – Cost trin deunyddiau ailgylchu sych fesul cartref**




**Ffigwr 17 – Cost trin deunyddiau ailgylchu sych fesul tunnell**

34. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd gostyngiad sylweddol o £6.6 miliwn mewn costau net trin deunyddiau ailgylchu sych, o £15.4 miliwn i £8.8 miliwn. Gallai'r gostyngiad hwn fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwerthiant deunyddiau ailgylchu sych rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae Ffigwr 16 a Ffigwr 17 yn dangos amrywiad helaeth mewn costau trin ar draws y grŵp. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r gwahanol systemau ailgylchu a threfniadau dan gontract sydd ar waith ar draws Cymru, gyda Chynghorau yn defnyddio gwahanol driniaethau a methodoleg yn dibynnu ar y system gasglu a ddefnyddir (e.e. Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau, Didoli/ Bwndelu yn unig ac ati).


35. Mae bron i hanner Cynghorau Cymru yn dangos cost negyddol ar gyfer gweithgareddau trin ac felly nid oes bar yn bresennol (mae'r rhain yn cynnwys Ynys Môn, Blaenau Gwent, Conwy, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Powys, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg). Mae hyn yn digwydd pan fydd yr incwm a dderbynnir o werthu deunyddiau ailgylchu sydd wedi'u trin yn uwch na chost y gweithgareddau trin eu hunain. Nid yw costau trin deunyddiau ailgylchu sych ar gael ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Chasnewydd, felly nid ydynt wedi'u cynnwys.

## 5.5 Incwm


36. Mae'r siartiau yn Ffigwr 18 a Ffigwr 19 yn dangos faint o incwm a dderbyniwyd drwy werthu deunyddiau a gasglwyd ar sail fesul cartref a fesul tunnell. Mae incwm yn amrywio'n sylweddol ar draws y grŵp ac yn adlewyrchu'r gwahanol gyfluniadau gwasanaeth a threfniadau dan gontract sydd ar waith ar gyfer trin y deunyddiau a gasglwyd. Am resymau sy'n ymwneud â chontract, efallai y bydd incwm deunyddiau ailgylchu rhai Cynghorau wedi'i netio wrth gofnodi'r ffigyrau, ac felly'n dangos fel dim incwm yn Ffigwr 18 a Ffigwr 19. Mae'r newidynnau hyn yn golygu bod yn rhaid edrych ar y data hwn fel man cychwyn ar gyfer cwestiynu gwahaniaethau ac na ddylid dibynnu'n gyfan gwbl arno i egluro union sefyllfa pob Cyngor.

37. Bu i'r incwm cyffredinol o werthiant deunyddiau ailgylchu sych fwy na dyblu rhwng 2020/21 a 2021/22, gan gynyddu i £12.2 miliwn, y swm uchaf a gofnodwyd ers dechrau gwaelodlin y data yn 2008/09. Gall y cynnydd sylweddol mewn gwerthiant deunyddiau ailgylchu sych fod o ganlyniad i gynnydd ac adferiad yng nghyfraddau'r farchnad yn dilyn y pandemig, gan arwain at Gynghorau yn derbyn prisiau uwch fesul tunnell yn dilyn y pandemig. Byddai gwell gwasanaethau ymyl palmant yn debygol o wella cyfraddau halogiad ac felly'n cynyddu incwm o werthu deunyddiau ailgylchu sych ar gyfer rhai Cynghorau. Daw'r cynnydd ar ôl gostyngiad yn 2020/21, oherwydd gostyngiad yn y pris fesul tunnell am ddeunyddiau, yn sgil y pandemig.

38. Yn ôl y data a'r rhybuddion uchod, ar y cyfan, Cynghorau glasbrint a dderbyniodd yr incwm canolrifol uchaf o werthu deunyddiau ailgylchu sych ar sail fesul tunnell, o gymharu â dulliau eraill. Gallai hyn awgrymu deunyddiau o ansawdd gwell a llai o halogiad/ deunyddiau nad ydynt yn darged gan Gynghorau glasbrint. Bu i Gynghorau glasbrint ddangos cost ganolrifol fesul tunnell o £81.85, £12 yn fwy na dulliau casglu eraill o'u grwpio gyda'i gilydd.




**Ffigwr 18 – Incwm drwy werthu deunyddiau ailgylchu sych fesul cartref**




**Ffigwr 19 – Incwm fesul tunnell drwy werthu deunyddiau ailgylchu sych**

# 6. Gwasanaethau Gwastraff Organig


39. Mae pob un o'r 22 Cyngor yn casglu gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd ar wahân (mae Caerffili a Chaerdydd yn cydgasglu gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd ar gyfer nifer fach iawn o gartrefi), felly, caiff data gwastraff organig ei rannu yn ôl dau bennawd; gwasanaethau gwastraff bwyd a gwasanaethau gwastraff gwyrdd.

40. O ran yr holl gasgliadau organig, mae'n amlwg bod amrywiadau helaeth mewn costau ar draws y grŵp. Mae'r amrywiad mewn costau yn fwy amlwg wrth gymharu ar sail fesul tunnell.

41. Os caiff yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau casglu gwastraff organig eu cronni, mae modd cymharu cyfanswm gwariant yn 2021/22 gyda 2020/21:

| | 20/21 | 21/22 | % y newid | Cost fesul cartref 21/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Organig** | £55,866,396 | £56,189,247 | +0.58% | £38.63 |

42. Gwelwyd gostyngiad o 10,000 tunnell mewn perfformiad o ran cyfanswm crynswth y gwastraff organig a gasglwyd ar ymyl y palmant yn 2021/22, o gymharu â 2020/21. Mae Cynghorau wedi nodi, gyda newidiadau i'r tymhorau tyfu a chyfnodau sych estynedig, y gall gwastraff gwyrdd amrywio'n sylweddol rhwng cyfnodau.




**Ffigwr 20 – Costau gwastraff organig ers 2008/09**


43. Mae'r duedd tymor hwy i'w gweld yn Ffigwr 20. Ers dechrau gwaelodlin y data yn 2008/09, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran gwasanaethau gwastraff organig, gyda bron i bob cartref yng Nghymru bellach yn derbyn cynllun casglu. Mae ehangu gwasanaethau wedi arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfanswm crynswth y gwastraff organig, fel cyfran o gyfanswm GST, dros yr un cyfnod a ddangosir gan y llinell goch yn Ffigwr 20. Mae'r cynnydd mewn perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf yn debygol o fod yn gysylltiedig â chasgliadau gwastraff gardd yn cael eu sefydlu'n well ar draws Cymru, yn ogystal â pharhau i leihau capasiti ac amlder casglu gwastraff gweddilliol, ac mae pob un o'r rhain yn debygol o gael effaith ar grynswth y gwastraff organig a gesglir. Yn 2021/22, gwelwyd gostyngiad o ran perfformiad a gwariant mewn termau real. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol y flwyddyn flaenorol a all fod o ganlyniad i'r pandemig ac mae'n amlygu dychwelyd at 'normalrwydd'. Wrth i Gynghorau ddechrau codi tâl am wasanaethau gwastraff gwyrdd, bydd yn ddiddorol nodi'r effaith ar berfformiad.

44. Bydd deunyddiau organig sy'n cael eu casglu ar ymyl y palmant angen rhyw fath o driniaeth. Bydd y costau a ysgwyddir yn dibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys y crynswth cyffredinol a anfonir ar gyfer triniaeth a'r fethodoleg triniaeth a ddefnyddir. Caiff gwastraff bwyd o bob un o'r 22 Cyngor ei anfon i un o bum safle treulio anaerobig.


45. Mae'n ofynnol i Gynghorau drosglwyddo'r deunyddiau sy'n cael eu casglu i gyfleusterau trin. Mae'r costau a ysgwyddir yn gymharol isel o'u cymharu â chost gyffredinol gwasanaeth, felly ar gyfer byrdra, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad. Yn yr un modd, mae costau a ysgwyddir am waredu/ claddu deunydd nad yw'n compostio (halogiad) ac incwm a gynhyrchwyd gan wasanaethau gwastraff organig yn isel, felly nid yw data wedi'i gynnwys yn y prif adroddiad.

## 6.1 Gwasanaethau Gwastraff Bwyd

46. Gellir gweld cyfanswm cost net darparu casgliad gwastraff bwyd yn Ffigwr 21 (cost fesul cartref) a Ffigwr 22 (cost fesul tunnell a gasglwyd). Mae perfformiad y gwasanaeth (h.y. cyfraniad gwastraff bwyd wedi'i ailgylchu i berfformiad ailgylchu cyffredinol) i'w weld ar yr ochr dde ac fel y llinellau oren ar y siart. Dylid cofio bod gwastraff bwyd yn aml yn cael ei gasglu gyda ffrydiau gwastraff eraill, fel arfer deunyddiau ailgylchu sych ar gyfer Cynghorau sy'n didoli ar ymyl y palmant. Yn yr achosion hyn, mae'r ffigyrau yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio dosraniad.




**Ffigwr 21 – Cost gwasanaeth gwastraff bwyd fesul cartref.**




**Ffigwr 22 – Cost gwasanaeth gwastraff bwyd fesul tunnell**


47. Mae cost a pherfformiad yn amrywio ar draws y grŵp. Ceir amrywiaeth eang o ran arenillion fel % o GST, o 3.2% i 14.7%, sy'n ostyngiad bychan o gymharu â 2020/21. Gwelwyd cynnydd bychan yn y gwastraff bwyd a gafodd ei ailgylchu fel % o GST rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae mwy o wahaniaeth rhwng bar cost a bar perfformiad yn debygol o olygu bod gwasanaeth yn perfformio'n well. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth a weithredir gan Ben-y-bont ar Ogwr yn dangos cost isel ac arenillion uchel.

48. Yn 2021/22, gwelwyd cynnydd o £1.7 miliwn o ran costau cyffredinol gwasanaeth gwastraff bwyd, sy'n gynnydd o 4.7%, gyda chostau canolrifol yn cynyddu dim ond 23 ceiniog fesul cartref, o gymharu â 2020/21. O ystyried chwyddiant, mae'r cynnydd o ran gwariant gwastraff bwyd mewn termau real yn gostwng i 0.68%.


49. Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o 3.2% (4,760 tunnell) mewn tunelledd gwastraff bwyd, ac mewn perthynas â hyn, gwelwyd gostyngiad yng nghyfraniad gwastraff bwyd at ailgylchu cyffredinol, o 9.8% yn 2020/21 i 9.4% yn 2021/22. Mae'r gostyngiad mewn gwastraff bwyd a gesglir ar ymyl y palmant yn debygol o fod oherwydd cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol (2020/21) a all fod o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig, pan oedd rhaid i bobl aros gartref, gan olygu bod mwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Wrth i bethau ddechrau dychwelyd i 'normalrwydd' a phobl yn dychwelyd i'r gwaith, arweiniodd hyn at lai o wastraff bwyd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant yn ystod 2021/22. O gymharu â data cyn y pandemig, bu i dunelledd gwastraff bwyd gynyddu o 131,498 tunnell i 141,785 tunnell rhwng 2019/20 a 2021/22.

### 6.1.1 Casglu gwastraff bwyd

50. Mae costau casglu gwastraff bwyd i'w gweld yn Ffigwr 23 (cost fesul cartref) a Ffigwr 24 (cost fesul tunnell a gasglwyd).





**Ffigwr 23 – Cost casglu gwastraff bwyd fesul cartref.**





**Ffigwr 24 – Cost casglu gwastraff bwyd fesul tunnell**

## 6.1.2 Trin gwastraff bwyd

51. Mae costau trin gwastraff bwyd i'w gweld yn Ffigwr 25 (cost fesul cartref) a Ffigwr 26 (cost fesul tunnell a gasglwyd).




**Ffigwr 25 – Cost trin gwastraff bwyd fesul cartref.**




**Ffigwr 26 – Cost trin gwastraff bwyd fesul tunnell**

52. Mae amrywiad eang ar draws y grŵp o ran costau trin gwastraff bwyd. Y gost ganolrifol yw £51.24 fesul tunnell; cynnydd o 16 ceiniog yn unig, o gymharu â 2020/21.

## 6.2 Gwasanaethau Gwastraff Gwyrdd

53. Yn 2021/22, gwelwyd gostyngiad o £1.4 miliwn o ran costau cyffredinol gwasanaeth gwastraff gwyrdd, sy'n ostyngiad o 7.5%, gyda chostau canolrifol yn cynyddu 42 ceiniog o gymharu â 2020/21. O ystyried chwyddiant, gellir gweld gostyngiad pellach mewn termau real o 11.4%.


54. Gwelwyd gostyngiad o 5,318 tunnell o ran tunelledd cyffredinol. Mewn perthynas â hyn, gwelwyd gostyngiad hefyd mewn cyfraniad gwastraff gwyrdd i ailgylchu cyffredinol, o 7.8% yn 2020/21 i 7.5% yn 2021/22. Mae'r gostyngiad mewn gwastraff gwyrdd a gesglir ar ymyl y palmant yn debygol o fod oherwydd cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol (fel yn achos gwastraff bwyd), a all fod o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, pan oedd rhaid i bobl aros gartref, gan olygu bod mwy o bobl yn treulio mwy o amser yn eu gerddi ac felly mwy o wastraff gwyrdd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Wrth i bethau ddechrau dychwelyd i 'normalrwydd' a phobl yn dychwelyd i'r gwaith, arweiniodd hyn at lai o wastraff gardd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant yn ystod 2021/22. O gymharu â data cyn y Covid (2019/20), gwelwyd cynnydd o ran tunelledd gwastraff gwyrdd, o 101,126 tunnell i 112,483 tunnell, sy'n dangos cynnydd mewn cyfranogiad.

55. Yn sgil rheoliadau a chyfyngiadau COVID-19 yn ystod y pandemig, bu i rai Cynghorau flaenoriaethu casgliadau gwasanaethau craidd. Mewn rhai achosion, bu i hyn arwain at atal casgliadau gwastraff gwyrdd dros dro yn ystod 2020/21. Mae Ceredigion wedi'i

heithrio o’r graffiau gwastraff gwyrdd yn yr adroddiad hwn, gan eu bod wedi parhau i atal eu gwasanaethau gwastraff gwyrdd yn 2021/22.


56. Yn ystod 2021/22, roedd hanner Cynghorau Cymru yn codi tâl ar breswylwyr am gasglu gwastraff gwyrdd ar ymyl y palmant[8] trwy danysgrifiadau blynyddol. Mae’n werth nodi bod nifer gynyddol o Gynghorau wedi lleihau eu casgliadau gyda chyfyngiadau tymhorol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd pedwar Cyngor yn casglu gwastraff gwyrdd bob wythnos yn ystod y prif dymor, tra bod y deunaw Cyngor arall yn casglu gwastraff gwyrdd bob pythefnos. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.

57. Mae cyfanswm cost net darparu casgliadau gwastraff gwyrdd ar wahân i’w weld yn Ffigwr 27 (cost fesul cartref) a Ffigwr 23 (cost fesul tunnell a gasglwyd). Mae’n bwysig nodi bod y gost yn cael ei rhannu gyda chyfanswm nifer y cartrefi, nid nifer y defnyddwyr neu danysgrifwyr. Mae perfformiad o ran cyfraniad gwastraff gwyrdd wedi’i ailgylchu i berfformiad ailgylchu cyffredinol i’w weld ar yr ochr dde ac fel y llinell oren ar y siart.




**Ffigwr 27 – Cost gwasanaeth gwastraff gwyrdd fesul cartref, fesul Cyngor.**

[8] Mae Ceredigion hefyd yn codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd, ond cafodd y gwasanaeth ei atal am y rhan fwyaf o 2021.





**Ffigwr 28 – Cost gwasanaeth gwastraff gwyrdd fesul tunnell**

58. Mae Ffigwr 27 a Ffigwr 28 yn dangos amrywiad eang mewn costau a pherfformiad ar draws y grŵp. Mae'r gwahaniaeth sydd i'w weld rhwng data perfformiad a chostau ar gyfer Cynghorau fel Conwy ac Ynys Môn yn awgrymu eu bod yn wasanaethau cymharol effeithlon.

## 6.2.1 Cynghorau sy'n Codi Tâl a Chynghorau nad ydynt yn Codi Tâl

59. Mae amrywiadau a welir mewn arenillion ac felly cost fesul tunnell/cartref yn debygol o gael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau fel natur wledig, math o eiddo, amlder casgliadau ac a godir tâl. Mae'r graff isod (ffigwr 29), yn cymharu Cynghorau sy'n codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd â Chynghorau nad ydynt yn codi tâl, ar sail y gost fesul tunnell. Mewn rhai achosion, caiff tunelledd a gwariant eu cyfrifo gan ddefnyddio dosraniad wrth eu casglu gyda ffrydiau gwastraff eraill. Mae'r graff yn dangos mai'r 5 Cyngor sydd â'r gost isaf fesul tunnell ar gyfer gwasanaeth gwastraff gwyrdd yw'r Cynghorau sy'n codi tâl am y gwasanaeth. Y gost ganolrifol ar gyfer Cynghorau sy'n codi tâl am eu casgliadau gwastraff gwyrdd yw £83 fesul tunnell; mae hyn £75 yn is na'r gost ganolrifol fesul tunnell ar gyfer Cynghorau nad ydynt yn codi tâl. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae incwm gwastraff gwyrdd wedi parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall, ac yn 2021/22 gwelwyd

cynnydd o £1.8 miliwn (51%) o gymharu â 2019/20[9]. Mae'n werth nodi bod naw allan o'r deuddeg Cyngor sy'n codi tâl am gasgliadau gwastraff gwyrdd yn gynghorau gwledig.





**Ffigwr 29 – Cost gwasanaeth gwastraff gwyrdd fesul tunnell**


## 6.2.2 Casglu Gwastraff Gwyrdd

60. Mae'r gost o gasglu gwastraff gwyrdd i'w gweld yn Ffigwr 30 (cost fesul cartref, fesul Cyngor) a Ffigwr 31 (cost fesul tunnell a gasglwyd). Fel y soniwyd eisoes, mae'n bwysig nodi bod y gost yn cael ei rhannu gyda chyfanswm nifer y cartrefi, nid nifer y defnyddwyr neu danysgrifwyr. Hefyd, mewn rhai achosion, caiff ffigyrau eu cyfrifo gan ddefnyddio dosraniad wrth eu casglu gyda ffrydiau gwastraff eraill. Mae tri Chyngor yn dangos gwariant negyddol, gan fod yr incwm o godi tâl am y gwasanaeth yn gwrthbwyso union gost y gwasanaeth. Bu i Ynys Môn ddechrau codi tâl am wasanaethau gwastraff gwyrdd yn ystod 2021/22.

[9] Gwneir cymhariaeth gyda 2019/20 (cyn y pandemig) gan y bu i rai Cynghorau atal codi tâl yn ystod 2020/21 (yn ystod y pandemig)




**Ffigwr 30 – Cost casglu gwastraff gwyrdd fesul cartref, fesul Cyngor.**





**Ffigwr 31 – Cost casglu gwastraff gwyrdd fesul tunnell**


61. O ran yr holl wasanaethau gwastraff organig, gellir gweld mai costau casglu sy'n cyfrannu fwyaf at gost gyffredinol gwasanaeth, gan gyfrannu at 71% o gyfanswm cost y gwasanaeth.

## 6.2.3 Trin Gwastraff Gwyrdd

62. Mae'r gost o drin gwastraff gwyrdd i'w gweld yn Ffigwr 32 (cost fesul cartref, fesul Cyngor) a Ffigwr 33 (cost fesul tunnell a gasglwyd).




**Ffigwr 32 – Cost trin gwastraff gwyrdd fesul cartref, fesul Cyngor.**




**Ffigwr 33 – Cost trin gwastraff gwyrdd fesul tunnell[10]**


63. Ceir amrywiaeth eang ar draws y grŵp ar gyfer costau trin gwastraff gwyrdd, yn bennaf o ganlyniad i'r amrywiad mewn casgliad tunelledd rhwng Cynghorau. Y gost ganolrifol yw £39 fesul tunnell; sy'n ostyngiad o £1.67 o gymharu â 2020/21.

[10] Nid oedd dadansoddiad tunelledd ar gael ar gyfer Sir Benfro, ac felly ni chynrychiolir Sir Benfro ar y graff.


# 7. Gwasanaethau Ailgylchu a Chompostio Ymyl Palmant wedi'u Cyfuno

64. Er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon, mae llawer o Gynghorau yn cynnig casgliadau o fwy nag un ffrwd wastraff, yn defnyddio'r un cerbydau a chriw. Er enghraifft, mae rhai Cynghorau yn casglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu sych gyda'i gilydd fel rheol. Yn ystod 2021/22, bu i 14 Cyngor ddarparu systemau didoli ymyl palmant gan ddefnyddio cerbydau aml-adran, sy'n galluogi casglu nifer o ffrydiau gwastraff gan ddefnyddio'r un cerbyd a chriw. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth. Gan fod costau mwy nag un maes gwasanaeth yn cael eu rhannu o ganlyniad, mae'n ofynnol i Gynghorau wneud dosraniad rhesymol o gostau rhwng gwasanaethau i'w galluogi i gwblhau eu ffurflenni ariannol blynyddol. Er bod y dosraniadau a wnaed yn rhesymol, gall gwallau ddigwydd. Felly, mae'n ddefnyddiol ystyried costau cyfunol yr holl wasanaethau a ddarperir ar ymyl y palmant er mwyn lliniaru unrhyw wallau posibl o ran dosraniad.

65. Mae Ffigwr 34 a Ffigwr 35 isod yn dangos y costau crynswth ar gyfer yr holl wasanaethau ailgylchu ymyl palmant a gynhigir gan Gynghorau h.y. cyfanswm cost crynswth ailgylchu deunyddiau sych, gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd. Nid yw gwasanaethau gwastraff gweddilliol, canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, safleoedd dod â gwastraff, casgliadau gwastraff clinigol, gwastraff swmpus na gwastraff masnachol wedi'u cynnwys.




**Ffigwr 34 – Gwasanaethau compostio ac ailgylchu ymyl palmant – fesul cartref**





**Ffigwr 35 – gwasanaethau compostio ac ailgylchu ymyl palmant – fesul tunnell**

66. Gellir gweld amrywiadau mewn costau ar draws y grŵp, fodd bynnag, mae'r graffiau hyn yn dangos llai o amrywiad nag wrth gymharu gwasanaethau ar wahân yn gynharach yn yr adroddiad hwn, sy'n awgrymu bod costau cyffredinol yn cydgyfeirio. Mae naw Cyngor yn dangos costau gwasanaeth cyfunol o lai na £75 fesul cartref, un Cyngor yn fwy na 2020/21. Mae'r gost fesul cartref yn amrywio rhwng £37 - £148, ystod ehangach na'r flwyddyn flaenorol. Canolrif grŵp 2021/22 yw £83.70, sy'n gynnydd o 20 ceiniog yn unig fesul cartref o gymharu â 2020/21. Mae ychydig dros hanner Cynghorau Cymru yn amrywio rhwng £62.80 y cartref a £96 y cartref. Mae perfformiad hefyd yn amrywio ar draws y grŵp, gyda rhwng 27% a 51% o gyfanswm GST wedi'i ailgyfeirio drwy gasglu deunyddiau ar ymyl y palmant, sydd rhywfaint yn is na'r flwyddyn flaenorol.


67. Gwelwyd cynnydd yng ngwariant y gwasanaethau hyn wedi'u cyfuno o un flwyddyn i'r llall rhwng 2017/18 a 2020/21, fodd bynnag, yn 2021/22, gwelwyd gostyngiad, sy'n debygol o fod o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn costau yn ystod y pandemig, pan oedd nifer o gyfyngiadau mewn grym, a arweiniodd at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant a chostau ychwanegol i'r gwasanaeth. O gymharu gwariant gwasanaethau compostio ac ailgylchu ymyl palmant gyda 2019/20 (cyn y pandemig), gellir gweld cynnydd o £10,000 yn unig. Gallai'r duedd o gynnydd tymor hwy mewn gwariant fod o ganlyniad i nifer o resymau, gan gynnwys parhad a darpariaeth gwell gwasanaethau ar draws Cynghorau, cyfyngiadau gwastraff gweddilliol yn arwain at newid yn y crynswth a gesglir a newid ymddygiad wrth i ailgylchu ddod yn 'norm'. Wrth i Gynghorau ymdrechu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a helpu i yrru'r Economi Gylchol yng Nghymru, gallwn weld cynnydd mewn gwariant a adlewyrchir mewn perfformiad gwell yn gyffredinol yn y rhan fwyaf o Gynghorau dros y blynyddoedd.

# 8. Gwastraff Gweddilliol

68. Mae Ffigwr 36 a Ffigwr 37 yn dangos cost gyfanredol darparu gwasanaeth casglu, trosglwyddo, trin a gwaredu gwastraff gweddilliol. Maent yn dangos costau gwasanaeth net unrhyw incwm (lle bo'n berthnasol). Gall hyn gynnwys gwerthiant daliedyddion newydd, incwm o danwydd yn deillio o sbwriel neu incwm o werthu gwastraff gweddilliol wedi'i drin.




**Ffigwr 36 – Cost gwasanaeth gwastraff gweddilliol fesul cartref**




**Ffigwr 37 – Cost gwasanaeth gwastraff gweddilliol fesul tunnell**

69. Mae data perfformiad yn dangos cyfran y GST a gasglwyd ar ymyl y palmant sy'n wastraff gweddilliol. Felly, mae ffigyrau is yn dangos gwasanaeth sy'n perfformio'n well yn gyffredinol h.y. mae cyfran uwch o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff yn cael ei hailgylchu. Er enghraifft, roedd Sir Fynwy yn gweithredu gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol rhad o gymharu â'r grŵp. Mae data perfformiad yn dangos bod y gyfran o gyfanswm GST sy'n weddilliol yn un o'r rhai isaf ar draws y grŵp.

70. O'r data craidd, mae hefyd yn bosibl cymharu gwariant cyffredinol gwasanaeth gwastraff gweddilliol 2021/22 gyda 2020/21:


| | **20/21** | **21/22** | **% y newid** | **Cost fesul cartref 21/22** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff gweddilliol** | £98,192,385 | £98,148,534 | -0.04% | £67.48 |

71. Yn 2021/22, gwelwyd rhywfaint o ostyngiad o ran costau cyffredinol gwasanaethau gwastraff gweddilliol, gyda gostyngiad o £44,000 mewn gwariant net o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae costau sydd wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn dangos mwy o ostyngiad o ran gwariant mewn termau real. Er y bu gostyngiad yn y gwariant cyffredinol, gwelwyd cynnydd o £1.82 yn y gost ganolrifol fesul cartref, a gododd i £69.62 yn 2021/22.

72. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd gostyngiad o 29,472 tunnell mewn crynswth gweddilliol. Yn yr un modd, gwelwyd gostyngiad hefyd yn y gost ganolrifol fesul crynswth uned, o £240 i £236 fesul tunnell. Daw'r gostyngiad mewn crynswth gweddilliol yn sgil cynnydd sylweddol y flwyddyn flaenorol yn ystod y pandemig pan oedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar gau dros dro, ac roedd rhaid i bobl aros gartref, a arweiniodd at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Gall y gostyngiad o ran gwastraff gweddilliol a gasglwyd ar ymyl y palmant yn 2021/22 fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn crynswth canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar ôl iddynt ailagor, ac mae'n dangos newid rhwng tunelledd gwastraff gweddilliol ymyl palmant a thunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Nid yw crynswth gwastraff gweddilliol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid yn 2019/20, ond mae'r gostyngiad yn awgrymu dychweliad rhannol at 'normalrwydd'. Er i'r cyfyngiadau gael eu codi, bu i lawer o bobl barhau i weithio gartref yn ystod 2021/22. Mae hyn yn debygol o fod wedi arwain at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant o gymharu â lefelau cyn y pandemig.

## 8.1 Amlder Casglu Gwastraff Gweddilliol

73. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i amlder casgliadau gwastraff gweddilliol ar gyfer Cynghorau yn ystod 2021/22. Roedd pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru yn casglu gwastraff gweddilliol o leiaf bob pythefnos, ac roedd Ynys Môn, Blaenau Gwent, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro a Phowys yn casglu bob 3 wythnos, a Chonwy yn darparu gwasanaeth bob 4 wythnos. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.




**Ffigwr 38 – Gwastraff gweddilliol kg fesul cartref a gasglwyd**


74. Mae Ffigwr 38 yn dangos y crynswth gweddilliol a gasglwyd fesul cartref yn 2021/22 ac mae'n caniatáu i ni gymharu Cynghorau sy'n casglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos gyda'r rhai sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos. Mae'r graff yn dangos bod Cynghorau sy'n darparu casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair neu bedair wythnos wedi casglu ffigwr canolrifol o 53kg fesul cartref yn llai na'r rhai sy'n darparu casgliadau bob pythefnos. Bu i Gynghorau sy'n darparu casgliadau bob tair neu bedair wythnos gasglu ffigwr canolrifol o 256kg fesul cartref, tra y bu i Gynghorau sy'n darparu casgliadau bob pythefnos gasglu ffigwr canolrifol o 309kg fesul cartref. Gall hyn awgrymu bod casgliadau bob tair neu bedair wythnos yn annog preswylwyr i leihau gwastraff gweddilliol. Mae cyfradd ailgylchu gyfartalog Cynghorau sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos 2% yn uwch na Chynghorau sy'n casglu bob pythefnos; 67.3% o gymharu â 65.3%, yn y drefn honno. Mae'n bwysig nodi bod 6 allan o'r 7 Cyngor sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos yn cydymffurfio â'r glasbrint ac yn Gynghorau gweledig; ffactorau a all gyfrannu at y crynswth a gesglir.

75. O gymharu Cynghorau yn ôl natur wledig, y Cynghorau gwledig wnaeth gasglu'r crynswth isaf o wastraff gweddilliol yn ystod 2021/22, yn ogystal â'r crynswth uchaf o ddeunyddiau ailgylchu sych ymyl palmant ar sail kg fesul cartref (canolrif). Gallai'r gwahaniaeth mewn crynswth a gasglwyd ar ymyl y palmant fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys ymhlith eraill, amlder, capasiti, daliedydd a ddarperir, dulliau gorfodi a chasglu deunyddiau ailgylchu sych. Gall natur wledig a demograffig-gymdeithasol (er enghraifft fflatiau a thai dwysedd uchel, poblogaeth myfyrwyr, tai amlfeddiannaeth, oedran a phroffil) hefyd fod yn

ffactorau sy'n cyfrannu at y crynswth a gesglir, ac mae pob un ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

## 8.2 Daliedyddion Gwastraff Gweddilliol

76. Yn ystod 2021/22, darparodd 15 o Gynghorau finiau ar olwynion safonol ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ar ymyl y palmant. Defnyddiodd 7 o Gynghorau fagiau neu sachau safonol ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ar ymyl y palmant. Roedd y Cynghorau hyn yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Fynwy, Abertawe a Bro Morgannwg. Mae rhai o'r Cynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion yn caniatáu i rai cartrefi nad ydynt yn gallu defnyddio biniau ar olwynion ddefnyddio bagiau, ond ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r Cynghorau hynny wedi'u categoreiddio fel Cynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion, gan mai dyna'r daliedydd safonol a ddarperir i gartrefi. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.





**Ffigwr 39 – Gwastraff gweddilliol a gasglwyd fesul cartref**

77. Mae Ffigwr 39 uchod yn dangos y crynswth gweddilliol a gasglwyd fesul cartref yn 2021/22 ac mae'n galluogi cymharu rhwng Cynghorau a oedd yn casglu gan ddefnyddio biniau ar olwynion gyda'r rhai a oedd yn casglu gan ddefnyddio bagiau neu sachau. Mae'r tabl isod yn darparu cymhariaeth bellach rhwng y biniau ar olwynion a bagiau/sachau:

| Gwastraff gweddilliol | Kg a gasglwyd fesul cartref (canolrif) | Y gost ganolrifol fesul tunnell | Cyfradd gyfartalog ailgylchu a chompostio ymyl palmant |
|---|---|---|---|
| Bin ar olwynion | 319kg | £236 | 36% |
| Bagiau/ sachau | 223kg | £238 | 41% |
| Gwahaniaeth | 96kg | £2 | 5% |

78. Mae data o Ffigwr 39 a'r tabl uchod yn awgrymu bod Cynghorau a oedd yn defnyddio bagiau/ sachau i gasglu gwastraff gweddilliol wedi casglu 96kg fesul cartref (canolrif) yn llai o wastraff ar ymyl y palmant na Chynghorau a oedd yn defnyddio biniau ar olwynion. Mae'r data'n dangos bod costau Cynghorau sy'n defnyddio bagiau/ sachau a Chynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion yn debyg, ond yn benodol, fod cyfradd ailgylchu a chompostio ymyl palmant Cynghorau sy'n defnyddio bagiau/ sachau 5% yn uwch ar gyfartaledd. Mae'n bwysig nodi bod nifer o Gynghorau sy'n darparu bagiau yn Gynghorau gwledig, gyda phoblogaeth ddemograffig hŷn o bosibl. Mae ymchwil yn dangos bod y boblogaeth ddemograffig hŷn yn tueddu i fod yn rhai gwell am ailgylchu. Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad, mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y crynswth a gesglir ar ymyl y palmant, gan gynnwys ymhlith eraill, amlder, capasiti, daliedydd a ddarperir, dulliau gorfodi a chasglu deunyddiau ailgylchu sych a ffactorau digyfnewid megis demograffeg.

## 8.3 Gwastraff Gweddilliol – Tuedd Tymor Hwy





**Ffigwr 40 – Cost gwastraff gweddilliol ymyl palmant ers 2008/09**

79. Mae'r duedd dros y ddeng mlynedd diwethaf i'w gweld yn Ffigwr 40. Gellir gweld bod costau gwastraff gweddilliol a sgil-gynhyrchion, sydd wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant, wedi gostwng yn sylweddol ers 2008/09. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyflwyno cyfyngiadau gwastraff gweddilliol, gan gynnwys lleihau capasiti ac amlder casgliadau, a gweithredu a pharhau gyda pholisïau gwastraff ymyl palmant ar draws nifer o Gynghorau dros y blynyddoedd. Yn 2019/20, gwelwyd y cynnydd cyntaf mewn termau real ers dechrau gwaelodlin y data yn 2008/09. Yn 2020/21, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran costau a pherfformiad, a all fod o ganlyniad i'r pandemig yn bennaf, pan oedd rhaid i bobl aros gartref. Yn fwy diweddar, gwelwyd gostyngiad o ran costau a pherfformiad rhwng 2020/21 a 2021/22, a oedd yn dangos dychweliad rhannol at 'normalrwydd' yn dilyn y pandemig.


## 8.4 Casglu Gwastraff Gweddilliol

80. Mae'r graffiau canlynol (ffigwr 41 a ffigwr 42) yn dangos costau casglu gwastraff gweddilliol ar sail cost fesul cartref a chost fesul tunnell. Mae Ffigwr 41 yn dangos mai Cynghorau sy'n casglu bob pythefnos sydd â'r gost ganolrifol isaf fesul cartref, o gymharu â chost ganolrifol y Cynghorau sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos, £22.80, £28.48 a £24.80 yn y drefn honno. Unwaith eto, mae'n werth nodi bod 6 allan o'r 7 Cyngor sy'n casglu bob tair/ pedair wythnos yn Gynghorau gwledig, ac mae'n naturiol felly eu bod yn dangos costau casglu uwch oherwydd dwysedd poblogaeth, sy'n debygol o arwain at gostau cludiant a milltiredd uwch.




**Ffigwr 41 – Cost casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref**


81. Mae ffigwr 42 yn dangos costau casglu gwastraff gweddilliol ar sail cost fesul tunnell. Mae'r graff yn awgrymu bod gan Gynghorau sy'n casglu bob tair/ pedair wythnos gost casglu uwch fesul tunnell (canolrif). Fel sydd i'w weld yn Ffigwr 39, mae Cynghorau sy'n casglu bob tair/ pedair wythnos yn casglu 53kg yn llai o wastraff gweddilliol fesul cartref na'r rhai sy'n darparu casgliadau bob pythefnos, ac felly mae'n naturiol bod Cynghorau sy'n casglu bob tair/ pedair wythnos yn dangos cost uwch fesul tunnell. Gallai hyn awgrymu bod isafbrisiau penodedig o ran darparu gwasanaeth gwastraff gweddilliol, na ellir eu hosgoi.





**Ffigwr 42 – Cost casglu gwastraff gweddilliol fesul tunnell**

## 8.4 Trosglwyddo Gwastraff Gweddilliol

82. Mae'n ofynnol i nifer sylweddol o Gynghorau drosglwyddo'r gwastraff gweddilliol a gasglwyd cyn ei drin neu ei waredu. Mae'r costau a ysgwyddir i'w gweld yn Ffigwr 41 a Ffigwr 42.




**Ffigwr 43 – Costau trosglwyddo gwastraff gweddilliol fesul cartref**





**Ffigwr 44 – Cost trosglwyddo gwastraff gweddilliol fesul tunnell**


## 8.5 Trin/ Prosesu Gwastraff Gweddilliol

83. Dros y blynyddoedd, mae mwy o Gynghorau wedi mabwysiadu technolegau trin ar gyfer rheoli eu gwastraff gweddilliol, a'r diweddaraf yw Cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni Parc Adfer, Gogledd Cymru, a gafodd ei weithredu'n llawn ym mis Rhagfyr 2019. Mae pob un o'r 22 Cyngor yn dangos costau trin ac maent i'w gweld yn Ffigwr 45 a Ffigwr 46.

84. Mae cost triniaeth prosesu gwastraff i'w gweld yn Ffigwr 45 a Ffigwr 46. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o tua £600,000 mewn costau trin gwastraff gweddilliol, o £54.9 miliwn yn 2020/21 i £55.5 miliwn, tra gwelwyd gostyngiad o 13,187 tunnell mewn tunelledd dros yr un cyfnod. Daw'r gostyngiad mewn tunelledd yn dilyn cynnydd o 24% (63,000 tunnell) y flwyddyn flaenorol (2020/21) oherwydd cyfyngiadau yn ystod y pandemig, a arweiniodd at fwy o wastraff yn cael ei anfon i gyfleusterau troi gwastraff yn ynni. Mae'r gostyngiad mewn tunelledd yn ystod 2021/22 yn dangos dychweliad rhannol at 'normalrwydd' yn dilyn y pandemig. Mewn rhai achosion, nid yw'r holl wastraff gweddilliol yn cael ei drin, ac felly mae rhai Cynghorau yn ysgwyddo costau gwaredu/ tirlenwi.




**Ffigwr 45 – Cost trin gwastraff gweddilliol fesul cartref**





**Ffigwr 46 – Cost trin gwastraff gweddilliol fesul tunnell**


## 8.6 Gwarediadau Tirlenwi Gwastraff Gweddilliol

85. Mae Ffigwr 47 a Ffigwr 48 yn dangos costau gwaredu'r gwastraff gweddilliol a gasglwyd. Mae'r rhain yn gyffredinol yn seiliedig ar gontractau pris penodedig a bydd costau yn amrywio yn seiliedig ar amgylchiadau lleol (fel argaeledd dewisiadau tirlenwi cyfagos) hyd contract a dyddiad dechrau'r contract. Mae data yn cael ei ddangos ar sail cost fesul cartref a chost fesul tunnell.

86. Mae costau gwaredu gwastraff gweddilliol yn parhau i ostwng o un flwyddyn i'r llall, ac eithrio cyfnod y pandemig (2020/21). Yn 2021/22, gwelwyd y gwariant net isaf ar gofnod o ran gwaredu, sy'n dangos tuedd tymor hwy.  Gwelwyd gostyngiad o bron i £1.8 miliwn mewn costau net gwaredu, o tua £5.8 miliwn yn 2020/21 i tua £4 miliwn yn 2021/22. Dros yr un cyfnod, bu i nifer y Cynghorau sy'n ysgwyddo costau gwaredu gwastraff gweddilliol ostwng o 11 i 9 Cyngor. Dangosodd chwe allan o'r naw o Gynghorau hynny ostyngiad mewn costau gwaredu. Dros y cyfnod hwn, roedd Abertawe yn gwneud eu gwaith tirlenwi eu hunain ac felly roeddent yn dangos costau tirlenwi uwch. Mae'n werth nodi bod pob Cyngor o fewn eu lwfans tirlenwi ar gyfer y cyfnod hwn.





**Ffigwr 47– Cost gwaredu gwastraff gweddilliol fesul cartref**





**Ffigwr 48– Cost gwaredu gwastraff gweddilliol fesul tunnell[11]**

[11] Bu i rai Cynghorau ysgwyddo costau gwaredu, ond oherwydd costau isel fesul tunnell, nid ydynt wedi'u cynrychioli yn Ffigwr 48.

87. Mae Ffigwr 49 a Ffigwr 50 yn dangos tueddiadau tymor hwy costau a thunelledd gwaredu a thrin gwastraff gweddilliol. Mae Ffigwr 49 yn dangos y newid mewn gwariant o waredu i drin dros y deng mlynedd diwethaf. Yn yr un modd, mae Ffigwr 50 yn dangos y newid mewn tunelledd o waredu i drin dros yr un cyfnod o amser.




**Ffigwr 49 – Gwariant gwaredu a thrin gwastraff gweddilliol dros amser**




**Ffigwr 50– Tunelledd gwaredu a thrin gwastraff gweddilliol dros amser**

Gall nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn gwastraff gweddilliol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi dros y blynyddoedd, gan gynnwys (ymhlith eraill), Treth

Gwarediadau Tirlenwi, a allai fod i raddau wedi cymell dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ddulliau eraill llai niweidiol megis ailgylchu, ailddefnyddio a throi gwastraff yn ynni. Mae effaith y dreth gwarediadau tirlenwi ar ailgylchu ac ailddefnyddio i'w gweld ym mhrif ganfyddiadau crynodeb o'r adolygiad[12] o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017:

> *Rhwng 2018-2022, cynyddodd cyfraddau ailgylchu 2 y cant, er na chynyddodd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn termau real. Er y gallai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod wedi cynyddu ailgylchu, credai rhanddeiliaid fod ffactorau eraill yn dylanwadu (yn benodol arwyddion gwleidyddol fod tirlenwi yn ddewis anghynaladwy a thargedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol) wedi cael mwy o effaith. (Eunomia/LlC t. 4)*


[12] Adolygiad annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: mae crynodeb ar gael yma

## 9. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

88. Yn dilyn y pandemig, pan oedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar draws Cymru ar gau dros dro a systemau archebu yn cael eu cyflwyno, gwelwyd dychweliad tuag at 'normalrwydd' yn 2021/22. Bu i rai Cynghorau barhau i ddefnyddio systemau archebu wrth wneud gwelliannau eraill. Fe ailgychwynnodd gorsafoedd didoli gwastraff cyffredinol/ gweddilliol a bu i siopau ailddefnyddio ailagor i gwsmeriaid ar y safleoedd.


89. Yn ystod 2021/22, cafodd pedair siop ailddefnyddio newydd eu hagor gan Gynghorau ym Mlaenau Gwent, Caerdydd, Sir Gâr a Sir Fynwy. Mae tair o'r rhain wedi'u lleoli ar safleoedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ac mae un wedi'i lleoli mewn canol tref. Bellach, mae gan 14 o Gynghorau o leiaf un siop ailddefnyddio ac mae rhai ohonynt wedi'u lleoli ar safleoedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae dwy siop ailddefnyddio yn Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf, ac mae pedair ym Mhowys[13].

90. Fel o'r blaen, mae'r gost yn cael ei dangos ar yr ochr chwith ac mae perfformiad, o ran crynswth sy'n cael ei ailgylchu drwy rwydwaith canolfan ailgylchu gwastraff y cartref fel cyfran o gyfanswm GST, yn cael ei ddangos ar yr ochr dde. Mae'r costau a ddangosir yn cynnwys y ffracsiynau o ddeunyddiau ailgylchu a gwastraff gweddilliol yr ymdrinnir â hwy mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mewn rhai achosion, gall ffigyrau hefyd gynnwys incwm a chostau sy'n gysylltiedig â chynnal siopau ailddefnyddio.




**Ffigwr 51 – Cost gwasanaeth safle canolfan ailgylchu gwastraff y cartref fesul cartref**

[13] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a siopau ailddefnyddio yn adroddiad meincnodi canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref y Rhaglen Gwella Gwastraff, sydd ar gael ar y canolbwynt meincnodi ariannol Gwastraff ac Ailgylchu.




**Ffigwr 52 – Cost gwasanaeth canolfan ailgylchu gwastraff y cartref fesul tunnell**

91. Unwaith eto, mae'r gwahaniaeth rhwng bariau cost a pherfformiad yn debygol o nodi gwasanaeth mwy effeithlon. Mae Wrecsam, sy'n un o'r Cynghorau gyda'r dangosyddion cost fesul cartref a chost fesul tunnell isaf, ond eto yn ailgylchu 24% o gyfanswm GST a ailgylchir trwy rwydwaith safleoedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, ymysg y Cynghorau sy'n perfformio orau. Mae costau Wrecsam o ran gwasanaethau eraill yn uwch, ac felly gallent fod yn rhan o'u sefyllfa dan gontract.

92. Mae data perfformiad blaenorol yn dangos y gall cyfraniad canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref i gyfraddau ailgylchu cyffredinol fod yn sylweddol. Yn 2020/21, gwelwyd cyfradd cyfraniad llawer is, sy'n amlygu effaith y pandemig. Yn 2021/22, mae data yn dangos cynnydd o ran cyfraddau cyfraniad, er nad oedd hynny ar yr un lefelau â 2019/20 (cyn y pandemig), sy'n awgrymu dychweliad rhannol at 'normalrwydd', gyda'r crynswth sy'n cael ei ailgylchu gan Gynghorau yn amrywio o 7% i 28% fel % o GST.


93. O'r data craidd, mae'n bosibl cymharu gwariant gwasanaeth cyffredinol canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref gyda 2020/21:

| | 20/21 | 21/22 | % y newid | Cost fesul cartref 21/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref** | £39,244,209 | £42,627,675 | +8.62% | £29.31 |

94. Gwelwyd cynnydd o 8.6% o ran gwariant cyffredinol canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn ystod 2021/22, er gwaethaf cynnydd o £2.1 miliwn mewn incwm a dderbyniwyd gan Gynghorau rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae costau sydd wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn dangos llai o gynnydd o ran gwariant mewn termau real (4.6%). Daw'r cynnydd o 8.6% mewn gwariant yn dilyn gostyngiad o 7% y flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig, ac mae hyn eto yn dangos dychweliad rhannol at 'normalrwydd'. Mae'r data yn dangos bod gwariant cyffredinol canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn 2021/22 wedi dychwelyd i lefelau cyn Covid (2019/20), £42,627,675 a £42,248,897, yn y drefn honno.


95. Gwelwyd cynnydd o £2.20 o ran cost ganolrifol fesul cartref canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gan gynyddu i £31.20 fesul cartref o gymharu â 2020/21. Mae'r gost ganolrifol fesul cartref wedi dychwelyd i ffigwr tebyg i'r un cyn y pandemig (2019/20). Gwelwyd gostyngiad o £10 o ran y gost net ganolrifol fesul tunnell, gan ostwng i £157.91 fesul tunnell o gymharu â 2020/21. Fodd bynnag, o gymharu â ffigyrau cyn y Covid, mae gwahaniaeth sylweddol o hyd. Yn 2019/20, gwelwyd ffigwr o £120 ar gyfer y gost ganolrifol fesul tunnell, £38 fesul tunnell yn is nag ar ôl y pandemig (2021/22). Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol gysylltiedig ag 18% yn llai o fewnbwn mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, o gymharu cyfnodau cyn ac ar ôl y pandemig (2019/20 a 2021/22 yn y drefn honno).

96. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o 16.8% o ran mewnbwn gwastraff gweddilliol a deunyddiau ailgylchu mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Dros yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 3% mewn crynswth o ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, fel cyfran gyffredinol o ffrydiau gwastraff cartrefi, o 21% i 24%. Mae'n werth nodi nad yw cyfran canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref o ffrydiau gwastraff cartrefi cyffredinol wedi dychwelyd i'r lefel fel yr oedd cyn Covid (2019/20) i 30%. Am yr ail flwyddyn yn olynol ers 2016/17, nid canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yw'r gyfran uchaf o grynswth o'r holl ffrydiau gwastraff cartrefi, sydd unwaith eto'n dangos effaith barhaol y pandemig.




**Ffigwr 53 – newid ym mherfformiad y gwasanaeth gwastraff cartrefi**

97. Mae Ffigwr 53 yn dangos y gwahaniaeth o ran y tunelledd a gasglwyd rhwng 2020/21 a 2021/22 ar yr elfennau gwasanaeth cartrefi. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r graff yn dangos cynnydd cyffredinol o 46,026 tunnell o ran tunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, tra bod tunelledd cyffredinol deunyddiau ailgylchu sych, gwastraff gweddilliol ac organig ymyl palmant wedi gostwng 52,612 tunnell, sy'n dangos newid rhwng tunelledd ymyl palmant a thunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae'r graff yn awgrymu, wrth i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ailagor a phobl yn dychwelyd i'r gwaith, bod llai o wastraff wedi cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant a mwy mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.





**Ffigwr 54 – gwariant safle canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ers 2008/09**

98. Dros y tymor hwy (ffigwr 54), gellir gweld bod gwariant wedi gostwng ers 2016/17, a bod gwariant yn gostwng islaw gwaelodlin y data yn fwy diweddar. Fodd bynnag, gellir gweld cynnydd sylweddol mewn costau yn 2021/22, sy'n dangos dychweliad at 'normalrwydd', yn dilyn gostyngiad sylweddol yn ystod y pandemig. Ers 2008/09, mae perfformiad ailgylchu wedi cynyddu'n raddol a gwelwyd dirywiad bychan yn 2021/22. Mewn rhai Cynghorau, lle mae systemau archebu wedi cael eu rhoi ar waith, fe'u hystyrir fel rhwystr o ran cael gwared ar wastraff "masnachol" mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae'n bosibl bod y lleihad o ran mewnbwn dros y blynyddoedd diwethaf hefyd yn gysylltiedig â gweithrediad parhaus gwasanaethau ymyl palmant cynhwysfawr ar draws Cymru, cyfyngiadau gwastraff masnachol, gwiriadau ar bwy sy'n byw ar aelwydydd ac agor siopau ailddefnyddio[14].


[14] Gellir cael rhagor o wybodaeth fanwl am siopau ailddefnyddio a'r tunelledd cysylltiedig yn adroddiad meincnodi canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref y Rhaglen Gwella Gwastraff sydd ar gael ar y canolbwynt meincnodi ariannol Gwastraff ac Ailgylchu.

## 10. Safleoedd Dod â Gwastraff

99. Mae'r ffigyrau a ddangosir yn adlewyrchu'r gost gwasanaeth a rannwyd yn ôl nifer y cartrefi (Ffigwr 55) a'r crynswth a gasglwyd (Ffigwr 56).




**Ffigwr 55 – Costau safleoedd dod â gwastraff fesul cartref.**




**Ffigwr 56 – Costau safleoedd dod â gwastraff fesul tunnell.**


100. Gellir gweld bod costau a pherfformiad yn amrywio'n fawr ar draws y grŵp. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf y gwahanol lefelau o ddarpariaeth ar draws Cynghorau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae costau casglu'r gwastraff hwn wedi eu cynnwys gan wasanaethau eraill fel canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

101. O'r data craidd, mae'n bosibl cymharu gwariant cyffredinol gwasanaeth safleoedd dod â gwastraff 2021/22 gyda 2020/21.

| | 20/21 | 21/22 | % y newid | Cost fesul cartref 21/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Dod â gwastraff** | £952,408 | £972,691 | +2.13% | £0.67 |

102. Gwelwyd cynnydd o 2% o ran gwariant safleoedd dod â gwastraff rhwng 2020/21 a 2021/22. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 481 tunnell (5%) yn y crynswth a gasglwyd drwy'r rhwydwaith safleoedd dod â gwastraff oherwydd gostyngiad yn nifer y safleoedd dod â gwastraff; mae hyn yn parhau fel tuedd tymor hwy. Mae'r cynnydd mewn gwariant yn debygol o fod yn gysylltiedig â chwyddiant. O ystyried chwyddiant, gwelwyd union ostyngiad o ran gwariant mewn termau real yn achos safleoedd dod â gwastraff.

103. Mae'n debygol bod crynswth y deunyddiau a gasglwyd drwy'r rhwydwaith safleoedd dod â gwastraff yn lleihau o ganlyniad i systemau casglu ymyl palmant cynhwysfawr ac y bydd nifer y safleoedd yn parhau i leihau oherwydd lefelau uchel o halogiad o ran y deunyddiau ailgylchu a gwastraff masnachol sy'n cael eu gadael. Fodd bynnag, mae safleoedd dod â gwastraff yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at gyfraddau ailgylchu rhai Cynghorau, yn enwedig Cynghorau gwledig. Bu i Sir Gâr, er enghraifft, gasglu 7% o GST o safleoedd dod â gwastraff.





**Ffigwr 57 – gwariant safleoedd dod â gwastraff ers 2008/09**

105. Unwaith eto, gellir archwilio'r duedd dros y tymor hwy. Mae gwariant a'r crynswth a ailgylchwyd trwy'r rhwydwaith safle dod â gwastraff wedi gostwng yn raddol ers 2008/09. Mae'r graff yn dangos rhywfaint o gynnydd yn ystod 2020/21, a all fod o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig. Mae'r dirywiad mewn perfformiad yn debygol o fod oherwydd y gostyngiad parhaus yn nifer y safleoedd dod â gwastraff gan Gynghorau.

# 11. Gwastraff Arall a Gasglwyd

## 11.1 Gwasanaeth Gwastraff Masnachol

104. Mae Ffigwr 58 yn dangos cyfanswm cost gwasanaeth gwastraff masnachol (net o incwm).




**Ffigwr 58 – Cost gwasanaeth gwastraff masnachol[15]**

105. Gweithredir rhai gwasanaethau gwastraff masnachol trwy gasglu gwastraff masnachol ar rowndiau casglu gwastraff cartrefi. Yn aml, caiff tunelledd a chostau cysylltiedig eu dosrannu o bwysau cyfartalog biniau, ac felly efallai nad yw'r costau sydd i'w gweld uchod yn cynnig cynrychiolaeth lawn o wir gost gwasanaeth. Yn achos wyth Cyngor, roedd yr incwm a wnaed drwy godi tâl yn gwrthbwyso costau darparu'r gwasanaeth; mae hyn yn dri Chyngor yn fwy na 2020/21. Nid yw Sir Gâr yn cael ei chynrychioli yn Ffigwr 58, oherwydd cytundeb Teckal ar gyfer rheoli'r holl gasgliadau gwastraff masnachol/masnachu. Nid yw Ynys Môn wedi'i chynrychioli yn Ffigwr 58, gan nad yw'n darparu gwasanaeth gwastraff masnachol. Ni chaiff Pen-y-bont ar Ogwr ei chynrychioli, oherwydd gwariant net cyffredinol isel.

106. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o £4 miliwn o ran incwm cyffredinol gwastraff masnachol, i £21.2 miliwn. Gall y cynnydd sylweddol hwn fod o ganlyniad i

[15] Gellir cael rhagor o wybodaeth fanwl am wasanaethau Gwastraff Masnachol trwy'r Grŵp Meincnodi Gwastraff Masnachol, a hwylusir gan y Rhaglen Gwella Gwastraff.


symud yn ôl at ‘normalrwydd’ yn dilyn COVID-19 yn ystod 2020/21, pan oedd rhaid i bob busnes dianghenraid gau’n rhannol neu’n gyfan gwbl dros dro. Arweiniodd hyn at lai o gasgliadau ac atal contractau.

## 11.2 Casgliadau Clytiau a Chynnyrch Hylendid Amsugnol eraill

107. Mae nifer o Gynghorau yn darparu gwasanaeth casglu clytiau a chynnyrch hylendid amsugnol eraill ar wahân i gasgliadau gwastraff gweddilliol a chlinigol/ hylendid eraill; mae wyth Cyngor (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Gâr, Gwynedd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe) yn anfon y gwastraff i’w drin yn Natural UK. Mae Ffigwr 59 isod yn dangos cost y gwasanaeth fesul tunnell, sy’n cynnwys costau casglu, trosglwyddo a thrin.

108. Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o 11% o ran gwariant cyffredinol gwasanaeth clytiau a chynnyrch hylendid amsugnol, i £4.7 miliwn. Gwelwyd cynnydd o 16% mewn tunelledd cyffredinol, a gynyddodd i fwy na 1000 tunnell dros yr un cyfnod. Mae’r cynnydd o ran gwariant a’r crynswth a gesglir yn debygol o fod o ganlyniad i fwy o gyfranogiad a darpariaeth gwasanaeth.


109. Mae costau fesul tunnell sy’n gysylltiedig â gwasanaethau o’r fath i’w gweld yn Ffigwr 59. Mae’r gost fesul tunnell yn parhau’n uchel ac yn amrywio’n sylweddol o £176- £894 fesul tunnell. Gall amrywiad mewn costau fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys staff a cherbydau ar gyfer y gwasanaeth, costau cludo nwyddau, tunelli a gasglwyd, costau gwasanaeth contractwr yn erbyn costau mewnol ac ati.




**Ffigwr 59 – Cost Clytiau/ Cynnyrch Hylendid Amsugnol fesul tunnell**

## 11.3 Gwastraff Clinigol

110. Gellir gweld yn Ffigwr 60 bod pedwar Cyngor (Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tydfil a Wrecsam) yn dangos costau ar gyfer darparu casgliadau gwastraff clinigol. Mae'r costau hyn yn cynnwys casgliadau gwastraff clinigol ar ran Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â chasgliadau hylendid eraill ar wahân. Efallai bod mwy o Gynghorau yn darparu casgliadau gwastraff clinigol, ond nad ydynt yn gallu dosrannu'r costau, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn Ffigwr 60.




**Ffigwr 60- Cost gwastraff clinigol**

## 12. Y Cam Nesaf

- Mae'r Adroddiad Cyllid Gwastraff Blynyddol yn adroddiad meintiol i olrhain gwariant dros amser. Byddai Cynghorau wedi cael mynediad at adroddiad ariannol cryno yn manylu ar wariant gwastraff eu Cyngor eu hunain ar wasanaethau gwastraff cartrefi a'u sefyllfa o gymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru.

- Bwriedir i'r Adroddiad Cyllid Gwastraff Blynyddol ffurfio sail ar gyfer dadansoddiad pellach yn y gwaith meincnodi. Eleni, bydd tri phapur meincnodi ar gael i Gynghorau ynghyd â dadansoddiad mwy manwl o gostau casglu, yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau gwastraff bwyd, gwasanaethau ailgylchu deunyddiau sych a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

- Bydd y Prosiect Cyllid Gwella Gwastraff yn datblygu dros amser er mwyn ystyried polisïau newydd megis Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

| Cyngor | Dull Casglu Ailgylchu | Amlder Casglu Gwastraff Gweddilliol | Daliedydd Gwastraff Gweddilliol | Amlder Casglu Gwastraff Gardd | Gwastraff Gardd Ffi | Nifer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref | Nifer y Safleoedd Ailddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (cesglir trwy gydol y flwyddyn) | Ffi | 2 | |
| Blaenau Gwent | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos (Tymhorol) | Dim ffi | 2 | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Glasbrint | Bob pythefnos | Sachau Glas Ymyl Palmant 65 Litr (2 fag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 3 | 1 |
| Caerffili | Cymysg | Bob pythefnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos (Cesglir trwy gydol y flwyddyn) | Dim ffi | 6 | 1 |
| Caerdydd | Cymysg | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion neu Sachau Coch Streipiog (3 bag) | Bob pythefnos neu bob mis dros y Gaeaf | Dim ffi | 2 | 1 |
| Sir Gâr | Cymysg (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (4 bag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 4 | 1 |
| Ceredigion | Dwy Ffrwd | Bob tair wythnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (dim cyfyngiad) | Bob pythefnos ar gais | Ffi Cafodd y gwasanaeth ei atal gan amlaf yn 2021/22) | 4 | 1 |
| Conwy | Glasbrint | Bob pedair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 2 | 1 |
| Sir Ddinbych | Cymysg (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 3 | |
| Sir y Fflint | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 180 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 5 | |
| Gwynedd | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 8 | 1 |

## Atodiad – Tabl A

Manylion y gwasanaethau casglu

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (tymhorol) | Dim ffi | 2 | 1 |
| Sir Fynwy | Ffrydiau Lluosog | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (2 fag) | Bob wythnos (tymhorol) | Ffi | 4 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 3 (mae 1 ohonynt yn safle a rennir gyda Chyngor Powys) | 1 |
| Casnewydd | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 120 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 1 | 1 |
| Sir Benfro | Glasbrint | Bob tair wythnos | Darperir bagiau gwastraff gweddilliol (3 bag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 6 | |
| Powys | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 180 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 5 (mae 1 ohonynt yn safle a rennir gyda Chastell-nedd Port Talbot) | |
| Rhondda Cynon Taf | Dwy Ffrwd | Bob pythefnos | Cyfuniad o Finiau 120 a 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos a bob pythefnos dros y gaeaf | Dim ffi | 6 | 2 |
| Abertawe | Ffrydiau Lluosog (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (3 bag) | Bob pythefnos | Dim ffi | 5 | 1 |
| Torfaen | Didoli Ymyl Palmant | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 1 | 1 |
| Bro Morgannwg | Glasbrint | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (2 fag) | Bob pythefnos (tymhorol) | Dim ffi | 2 | |
| Wrecsam | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos a bob mis dros y gaeaf | Ffi | 3 | 1 |

## Atodiad – Tabl A

Manylion y gwasanaethau casglu

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth, ewch i'r Canolbwynt Meincnodi: https://www.benchmarkingwales.net/IAS/launch

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

Rhaglen Gwella Gwastraff



# Prosiect Cyllid Gwastraff 2021-22

# DRAFFT Gwasanaethau Gwastraff Cartref

# Crynodeb o'r Adroddiad - Ceredigion

# Nodiadau

**Mae adroddiadau cryno cyllid gwastraff unigol yn dangos gwariant a safbwynt y cyngor mewn perthynas â wasanaethau gwastraff cartref cynghorau eraill.**

**Pwyntiau i’w nodi:**

- Mae pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru wedi eu cynrychioli yn yr adroddiad hwn. Dylid nodi bod y ffigyrau 2021-22 ar gyfer Wrecsam wedi eu hamcangyfrif.
- Mae costau casglu post yn cynnwys costau ar gyfer Trosglwyddo, Trin a Gwaredu.
- Mae’r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys gwariant ychwanegol gan cynghorau wrth ymateb i’r pandemig.

  Roedd nifer fach o gynghorau wedi methu rhoi gwariant cysylltiedig Covid-19 yn eu datganiad cyllid ar gyfer WasteDataFlow, gan gynnwys Blaenau Gwent, Ceredigion a Wrecsam. Mae’n bwysig ystyried hyn wrth ddarllen yr adroddiad, oherwydd gall y cynghorau yma ddangos gwariant llai na gwir gost y gwasanaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am Brosiect Cyllid Gwastraff CLILC ar gael yma: Prosiect Cyllid Gwastraff - CLILC

CLlLC WLGA

# Gorolwg - Gwasanaethau Gwastraff Cartref

£6.1M - Cyfanswm cost gwasanaeth net

£172.70 - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

£3.32 - Cost gwasanaeth net cyfartalog fesul cartref yr wythnos

**Gwariant net**

2020-21 £6.2M ↘ 2021-22 £6.1M

-1.2%


**Cost net fesul cartref**

8fed cost isaf allan o 22 cyngor


2ail cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Cyfanswm gwariant net ar wasanaethau gwastraff cartref rhwng, 2020-21 a 2021-22**




**Cyfanswm gwariant net fesul cartref ar wasanaethau gwastraff cartref, 2021-22**



CLlLC WLGA

# Ailgylchu Sych - Cyfanswm Gwasanaeth, Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**£45.35** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

**Cost net fesul cartref**

2020-21 £50.58 ↘ 2021-22 £45.35

-10.3%


**Cost net fesul cartref**

8fed cost isaf allan o 22 cyngor

3ydd cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau casglu ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**




**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

2020-21 £16.66 ↘ 2021-22 £13.55

-18.6%

**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**


15fed cost isaf allan o 21 cyngor

8fed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

2ail cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

Nid oedd un cyngor yn gallu torri costau gwasanaeth ailgylchu i lawr ac felly mae 21 cyngor yn cael eu cynrychioli mewn siartiau casglu ac ar ôl casglu.

**Gwariant net ar wasanaethau ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**




**Cost net casglu fesul cartref**

2020-21 £33.92 ↘ 2021-22 £31.80

-6.3%


**Cost net casglu fesul cartref**

7fed cost isaf allan o 21 cyngor

3ydd cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau ar ôl casglu ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**



CLLLC
WLGA

# Gwastraff Bwyd - Cyfanswm Cost Gwasanaeth a Thunelli

**£24.28** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref


**Cost net fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £25.60 | ↘ | £24.28 |
| | -5.1% | |


**Cost net fesul cartref**

11eg cost isaf allan o 22 cyngor
5ed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Gwariant net ar wasanaethau gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**Costau gasglwyd gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**3,651** - Tunelli a gasglwyd ar ymyl palmant y flwyddyn

**kg gasglwyd fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| 103kg | ↘ | 103kg |
| | -0.3% | |

**kg gasglwyd fesul cartref**

10fed arenillion uchaf allan o 22 cyngor
5ed arenillion uchaf allan o 10 cyngor Gwledig
1af arenillion uchaf allan o 2 cyngor Canolbarth

CLlLC WLGA

# Gwastraff Bwyd - Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**Cost net casglu fesul cartref**


2020-21 £16.14 → 2021-22 £15.18

-6.0%


**Cost net casglu fesul cartref**

- **5ed** cost isaf allan o 22 cyngor
- **1af** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **1af** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau casglu gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**Costau ar ôl casglu gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

2020-21 £9.46 → 2021-22 £9.10

-3.7%

**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

- **19eg** cost isaf allan o 22 cyngor
- **8fed** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **2ail** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

# Gwastraff Gweddilliol - Cyfanswm Gwasanaeth, Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**£54.42** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref


### Cost net fesul cartref

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £54.73 | ↘ | £54.42 |
| | -0.6% | |

### Cost net fesul cartref

- **6ed** cost isaf allan o 22 cyngor
- **3ydd** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **1af** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**





### Cost net ar ôl casglu fesul cartref

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £41.33 | ↗ | £41.74 |
| | 1.0% | |

### Cost net ar ôl casglu fesul cartref

- **10fed** cost isaf allan o 22 cyngor
- **4ydd** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **2ail** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Gwariant net ar wasanaethau gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**





### Cost net casglu fesul cartref

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £13.40 | ↘ | £12.68 |
| | -5.3% | |

### Cost net casglu fesul cartref

- **2ail** cost isaf allan o 22 cyngor
- **1af** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **1af** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau ar ôl casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**



CLlLC WLGA

# Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref - Cyfanswm Cost Gwasanaeth a Thunelli

**£41.85** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

**Cost net fesul cartref**

2020-21 £37.49 ↗ 2021-22 £41.85

11.6%


**Cost net fesul cartref**

19eg cost isaf allan o 22 cyngor


8fed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

2ail cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Gwariant net ar wasanaethau canolfan ailgylchu gwastraff cartref fesul cartref, 2021-22**




**Costau mewnbwn canolfan ailgylchu gwastraff cartref fesul cartref, 2021-22**




**6,969** - Mewnbwn tunnell y flwyddyn

**5,274** - Tunelli a ailgylchwyd y flwyddyn

**75.7%** - Cyfradd dargyfeirio

**kg mewnbwn fesul cartref**

2020-21 134kg ↗ 2021-22 196kg

45.9%

**kg mewnbwn fesul cartref**

7fed arenillion uchaf allan o 22 cyngor

2ail arenillion uchaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af arenillion uchaf allan o 2 cyngor Canolbarth

CLlLC
WLGA

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rhaglen Gwella Gwastraff

# Crynodeb Gweithredol – Adroddiad Data Cyllid Gwastraff 2021-22

Ionawr 2024



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**wlga.cymru**

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Caerdydd
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

**wlga.wales**

# Cynnwys


Crynodeb o’r Prif Ganfyddiadau....4

Cyflwyniad....7

Newidiadau gwariant allweddol rhwng 2020/21 a 2021/22....8

Grantiau....9

Newidiadau Perfformiad Allweddol....9

Deunyddiau Ailgylchu Sych....10

- Costau casgliadau....12
- Incwm o werthiant Deunyddiau Ailgylchu Sych....12

Gwastraff Organig....14

Gwastraff Bwyd....14

- Gwastraff Gwyrdd....15
  - Codi Tâl / Peidio â Chodi Tâl....15

- Gwastraff Gweddilliol....17
  - Amlder Gwastraff Gweddilliol....17
  - Màs Gweddilliol a Gasglwyd....18
  - Cynhwysydd Gwastraff Gweddilliol....19
  - Gwaredu Tirlenwi Gweddilliol....20

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref....21

Atodiad – Tabl A....23

## Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau

Pan roedd pandemig COVID-19 ar ei anterth (2020/21) roedd cynnydd sylweddol yng ngwariant gwasanaeth ailgylchu Cynghorau Cymru oherwydd addasu arferion a systemau gweithio er mwyn cadw at y cyfyngiadau. Yn fwy diweddar mae data 2021/22 yn dangos Cynghorau Cymru ar daith yn ôl i 'normalrwydd' gyda chyfyngiadau'n cael eu codi a gwariant net cyffredinol yn gostwng 3.8% mewn termau real (wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant). Mae cyfraddau ailgylchu wedi lefelu i raddau dros y blynyddoedd diwethaf sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â chau'r canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref dros dro, atal rhai gwasanaethau gwastraff (gwastraff gwyrdd yn bennaf), a'r cynnydd mewn gwastraff cartref a gyflwynwyd ar ymyl y palmant oherwydd bod angen i filiynau o bobl aros gartref pan roedd y pandemig ar ei anterth.

### Cyfradd Ailgylchu

- Yn gyffredinol, mae cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio wedi gostwng 0.2%, gan ostwng o 65.4% yn 2020/21 i 65.2% yn 2021/22.

- Yn 2021/22 bu i Gynghorau gwledig gyflawni cyfradd ailgylchu gyfartalog o 67.3%; y gyfradd ailgylchu gyfartalog uchaf o gymharu â Chynghorau Bro (65.7%) a Chynghorau Trefol (63.7%).

### Gwastraff Solid Trefol (GST)[1]

- Rhwng 2020/21 a 2021/22, bu i'r gwariant gros ar wasanaethau gwastraff gynyddu £16 miliwn, gan gynyddu i £332,984,024. Gwelwyd cynnydd llai o 1.2% o ran gwariant gros mewn termau real. [2]

- Gwelwyd gostyngiad o 3.8% ran gwariant net mewn termau real dros yr un cyfnod. Dyma'r gostyngiad cyntaf mewn termau real ers 2017/18. Gall y gostyngiad i raddau fod o ganlyniad i ddychwelyd yn rhannol at 'normalrwydd' yn dilyn pandemig COVID-19, a arweiniodd at gostau ychwanegol i Gynghorau.

- Roedd sgil-gynhyrchion GST ar gyfer 2021\22 yn is na'r ffigyrau cyn y pandemig gan barhau tuedd mwy hirdymor o ostyngiad mewn gwastraff.

### Gwastraff Cartref[3]

- Rhwng 2020/21 a 2021/22, bu i wariant net cyffredinol ar wasanaethau gwastraff cartref gynyddu £1.8 miliwn, gan gynyddu i £270.7 miliwn. Gwelwyd gostyngiad o 3.3% o ran gwariant net mewn termau real.

- Rhwng 2020/21 a 2021/22 bu i sgil-gynhyrchion gwastraff cartref ostwng ychydig, gan ostwng i 1,306,273 tunnell. Mae'r ffigwr hwn yn debyg i ffigwr 2019/20 (cyn y pandemig) o 1,303,765 tunnell.

---

[1]Yn cynnwys elfennau o wastraff cartref (deunydd ailgylchu sych, organig, gweddilliol, canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a Dod â Gwastraff) gwastraff masnachol, gwastraff clinigol, gwastraff swmpus, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â GST.
[2]Wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant. Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer y 12 mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 yn 3.98%
[3]Yn cynnwys, ailgylchu deunyddiau sych, gwastraff bwyd, gwastraff gwyrdd, gweddilliol, canolfan ailgylchu gwastraff y cartref a gwasanaethau safleoedd dod â gwastraff

## Ailgylchu Deunyddiau Sych

- Bu i gostau ailgylchu deunyddiau sych ymyl y palmant ostwng £1.8 miliwn (2.5%), i £72.7 miliwn. Gwelwyd gostyngiad pellach o ran gwariant net mewn termau real, sef gostyngiad o 6.5%.
- Yn ystod 2021/22 bu i Gynghorau glasbrint gyflawni cyfradd ailgylchu ar y cyd o 67%, 2.8 pwynt canran yn uwch na [4]dulliau casglu eraill.
- Pan fônt yn cael eu cynnwys gyda'i gilydd, roedd cost canolrif gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych Cynghorau glasbrint fesul cartref yn £1.17 yn uwch na dulliau casglu eraill, 58 ceiniog yn uwch na chanolrif Cymru o £51.16 fesul cartref.
- Yn ystod 2021/22, Cynghorau trefol oedd â'r gost net ganolrifol isaf fesul cartref o ran costau casglu deunyddiau ailgylchu sych, sef £32 fesul cartref. Roedd Cynghorau glasbrint £10 fesul cartref yn ddrytach na chanolrif Cymru (£41).
- Yn ystod 2021/22 bu i Gynghorau glasbrint ar y cyfan gael yr incwm canolrifol uchaf o werthiant deunyddiau ailgylchu sych ar sail fesul tunnell o gymharu â dulliau eraill. Bu i Gynghorau glasbrint ddangos cost ganolrifol fesul tunnell o £81.85, £12 yn fwy na dulliau casglu eraill o'u grwpio gyda'i gilydd.
- Bu i'r incwm cyffredinol o werthiant deunyddiau ailgylchu sych fwy na dyblu rhwng 2020/21 a 2021/22, gan gynyddu i £12.2 miliwn, yr incwm uchaf a gofnodwyd hyd yma.

## Gwastraff Organig

- Roedd 2021/22 yn dangos cynnydd bach mewn costau gwasanaeth gwastraff organig, gyda gwariant net yn cynyddu i £56.2 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gostyngiad o 3.4% o ran gwariant net mewn termau real.
- Dros y deng mlynedd diwethaf, mae incwm gwastraff gwyrdd wedi parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall, ac yn 2021/22 gwelwyd cynnydd o £1.8 miliwn (51%) o gymharu â 2019/20. [5]
- Y gost ganolrifol ar gyfer Cynghorau sy'n codi tâl am eu casgliadau gwastraff gwyrdd yw £83 fesul tunnell; mae hyn £75 yn is na'r gost ganolrifol fesul tunnell ar gyfer Cynghorau nad ydynt yn codi tâl.

## Gwastraff Gweddilliol

- Yn 2021/22, gwelwyd rhywfaint o ostyngiad o ran costau cyffredinol gwasanaethau gwastraff gweddilliol, gyda gostyngiad o £44,000 mewn gwariant net o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gostyngiad o 4% o ran gwariant net mewn termau real.
- Yn 2021/22, gwelwyd y gwariant net isaf ar gofnod o ran gwarediadau tirlenwi, sy'n dangos tuedd tymor hwy.

---

Mae eraill yn cynnwys ffrwd sengl, ffrwd ddwbl, aml-ffrwd a didoli ymyl y palmant - gweler Atodiad A am fwy o wybodaeth.

[5] Gwneir cymhariaeth gyda 2019/20 (cyn y pandemig) gan y bu i rai Cynghorau atal codi tâl yn ystod 2020/21 (y pandemig ar ei anterth)

- Mae Cynghorau sy'n darparu casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair neu bedair wythnos wedi casglu ffigwr canolrifol o 53kg fesul cartref yn llai na'r rhai sy'n darparu casgliadau bob pythefnos.

- Roedd cyfradd ailgylchu gyfartalog Cynghorau sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos 2% yn uwch na Chynghorau sy'n casglu bob pythefnos; 67.3% o gymharu â 65.3%, yn y drefn honno.

- Ar sail kg fesul cartref (canolrif) bu i Gynghorau oedd yn casglu gwastraff gweddilliol gan ddefnyddio bagiau/sachau gasglu 96kg yn llai o wastraff gweddilliol na'r rhai oedd yn casglu gan ddefnyddio biniau olwynion.

- Roedd gan Gynghorau oedd yn defnyddio bagiau / sachau gyfradd gwastraff wedi'i ailgylchu a'i gompostio ar ymyl y palmant 5% yn uwch ar gyfartaledd.

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

- Yn ystod 2021/22 bu i wariant net canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref gynyddu i £42.6 miliwn, cynnydd o 8.6% (£2.1 miliwn). Gwelwyd cynnydd llai o 1.2% o ran gwariant mewn termau real.

- Gwelwyd cynnydd o £2.20 o ran cost ganolrifol fesul cartref canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gan gynyddu i £31.20 fesul cartref o gymharu â 2020/21. Mae'r gost ganolrifol fesul cartref wedi dychwelyd i ffigwr tebyg i'r un 2019/20 (cyn y pandemig).

- Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o 16.8% o ran mewnbwn gwastraff gweddilliol a deunyddiau ailgylchu mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

- Bu cynnydd o 46,026 tunnell o ran tunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, tra bod tunelledd cyffredinol deunyddiau ailgylchu (sych, organig a gweddilliol) ymyl y palmant wedi gostwng 52,612 tunnell, sy'n dangos newid rhwng tunelledd ymyl y palmant a thunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn dilyn y pandemig.

### Cafeat


- Mae pob un o'r 22 Cyngor yn cael eu cynrychioli yn yr adroddiad hwn; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai amcangyfrif yw ffigyrau Cyngor Wrecsam ar gyfer 2021/22.

- Mewn rhai achosion, gall ffigyrau Cynghorau ar wahân ddangos anghysondebau ac efallai na fyddant yn rhoi'r darlun cyfan; gall hyn fod oherwydd dosraniad. Gall dosraniad ddigwydd rhwng gwasanaethau a rennir a rhwng y broses casglu, trosglwyddo a thrin.

- Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys gwariant ychwanegol mewn perthynas ag ymateb Cynghorau i'r pandemig COVID-19. Nid oedd nifer fechan o Gynghorau yn gallu cynnwys gwariant cysylltiedig â Covid yn eu ffurflenni cyllid WasteDataFlow (Blaenau Gwent, Ceredigion, Torfaen a Wrecsam) ac ni fu'n rhaid i rai Cynghorau ysgwyddo unrhyw gostau o ran Covid.

## Cyflwyniad

Mae data 2021/22 yn dangos siwrne Cynghorau Cymru wrth ddychwelyd at 'normalrwydd' yn dilyn y pandemig yn 2020/21. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai o effeithiau'r pandemig wedi parhau i 2021/22, gyda rhai addasiadau i wasanaethau yn parhau i 2021/22. Gyda llawer o bobl yn debygol o barhau i weithio o gartref yn y dyfodol, mae'n bosib na fydd perfformiad, gwariant a gwasanaeth safonol yn dychwelyd i'r hyn oedd yn arferol cyn y pandemig.




**Ffigwr 1**

Mae Ffigwr 1 uchod yn dangos sut mae gwariant net ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru wedi newid ers i'r prosiect ariannol ddechrau yn 2008/09. [6] Mae gwariant mewn termau real wedi aros yn weddol sefydlog dros y pedair blynedd ar ddeg diwethaf. Yn fwy diweddar, rhwng 2018/19 a 2020/21, mae gwariant wedi cynyddu ac yn 2020/21 gwelwyd y cynnydd mynegeiedig mwyaf a gofnodwyd ers 2012/13, gan amlygu'r effaith ariannol mae'r pandemig wedi ei gael ar wasanaethau gwastraff. Yn 2021/22 gwelwyd y gostyngiad cyntaf mewn termau real ers 2017/18, gan adlewyrchu dychweliad tuag at 'normalrwydd' yn dilyn y cyfnod pan roedd y pandemig ar ei anterth.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol, o 35.6% yn 2008/09 i 65.1% yn 2021/22. Mae'r graff uchod fodd bynnag yn amlygu y bu'r gyfradd ailgylchu yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, rhwng 2019/20 a 2021/22. Gallai'r cysondeb fod yn gysylltiedig ag ymateb Cynghorau i'r pandemig, pan gafodd cyfyngiadau eu cyflwyno, gan gynnwys rhai gwasanaethau a gafodd eu hatal.


[6] Mae costau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ac wedi eu mynegeio yn defnyddio data 2008/09 fel gwaelodlin.

## Newidiadau gwariant allweddol rhwng 2020/21 a 2021/22

Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant net ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae'r golofn olaf yn dangos y gwahaniaeth mewn termau real. Dros y cyfnod hwn, gwelwyd gostyngiad o ran holl wariant gwasanaethau gwastraff cartrefi mewn termau real, ac eithrio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gyda chynnydd o 4.64%. Mae'n bwysig nodi nad yw gwasanaethau gwastraff o reidrwydd yn cynyddu gyda chwyddiant, ond cânt eu gwthio'n bennaf gan gostau staff, cludiant a thanwydd a buddsoddiad cyfalaf, ac mae pob un ohonynt yn cael eu gwthio ar gyfraddau gwahanol.

| **Gwariant ar wasanaethau gwastraff** | 2020/21 (£) | 2021/22 (£) | Gwahaniaeth (£) | Gwahaniaeth (%) | % Gwahaniaeth mewn Termau Real Chwyddiant= 3.98% |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant gros | 316,732,160 | 332,984,024 | 16,251,864 | 5.13% | 1.15% |
| Cyfanswm gwariant net | 283,348,945 | 283,826,107 | 477,162 | 0.17% | (-) 3.81% |
| Gwariant net ar wasanaethau gwastraff cartrefi[2] | 268,818,958 | 270,654,288 | 1,835,330 | 0.68% | (-) 3.3% |
| Ailgylchu deunyddiau sych (net) | 74,563,560 | 72,716,141 | (-) 1,847,419 | (-) 2.48% | (-) 6.46% |
| Gwastraff organig (net) | 55,866,396 | 56,189,247 | 322,851 | 0.58% | (-) 3.4% |
| Gwastraff gweddilliol (net) | 98,192,385 | 98,148,534 | (-) 43,850 | (-) 0.04% | (-) 4.02% |
| Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (net) | 39,244,209 | 42,627,675 | 3,383,466 | 8.62% | 4.64% |
| Safleoedd dod â gwastraff (net) | 952,408 | 972,691 | 20,283 | 2.13% | (-) 1.85% |

Mae Ffigwr 2 isod yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwariant net gwastraff cartrefi pob Cyngor rhwng 2020/21 a 2021/22. Dangosodd deg Cyngor ostyngiad mewn gwariant net, ond gwelwyd cynnydd gan ddeuddeg ohonynt.[7]





**Ffigwr 2**

[7]Yn seiliedig ar ffigyrau gwastraff WDF a gyflwynwyd gan Gynghorau. Sylwer fod rhai Cynghorau wedi cynnwys costau covid ychwanegol yn 2020/21 a rhai yn 2021/22 - fe allai hyn effeithio ar gynnydd a gostyngiadau rhwng y ddwy flynedd.

## Grantiau


Mae ffigwr 3 isod yn dangos fod lefel y cyllid trwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy wedi gostwng dros y 4 mlynedd ddiwethaf, tra bod gwariant net cyffredinol wedi cynyddu. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cynnydd yng nghyfradd chwyddiant, costau byw, costau ynni a galw cynyddol am wasanaethau wedi golygu fod Cynghorau wedi darparu mwy o adnoddau ar gyfer eu gwasanaethau eu hunain, gan roi rhagor o bwysau ar gyllidebau gwasanaethau. Bydd yn hanfodol i Gynghorau wneud arbedion effeithlonrwydd wrth i'r bwlch rhwng gwariant a chyllid grant gynyddu. Yn y dyfodol, dylai Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gyfrannu at gynnal gwasanaethau sy'n ymestyn yr egwyddor mai'r 'Llygrwr sy'n Talu', gan olygu y gallai arian cyhoeddus gael ei wario ar wasanaethau eraill.




**Ffigwr 3**

## Newidiadau Perfformiad Allweddol

Yn gyffredinol, mae cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio wedi gostwng o 65.4% yn 2020/21 i 65.2% yn 2021/22. Mae hyn rhywfaint yn uwch na'r gyfradd yn 2019-20 (65.1%). Bu i ddeg Cyngor (allan o 22) nodi cynnydd yn eu cyfradd ailgylchu, gydag 16 Cyngor yn cyflawni 64% neu uwch.





**Ffigwr 4**

Mae ffigwr 4 yn dangos cyfradd ailgylchu Cymru yn cynyddu rhwng 2017/18 a 2020/21. Mae'r gyfradd ailgylchu wedi lefelu dros y blynyddoedd diwethaf sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r pandemig. Mae'n amlwg fod gwaith ar ôl i'w wneud i Gymru gyflawni 70% erbyn 2024/25. Mae'n debygol y bydd angen adnoddau ac ymyraethau ychwanegol i Gynghorau Cymru gyrraedd y targed o 70% erbyn 2024/25.

Mae Ffigwr 5 isod yn dangos y cyfraddau ailgylchu cyfartalog a gyflawnwyd yn 2021/22, o'u grwpio yn ôl natur wledig. [8] Bu i Gynghorau gwledig gyflawni cyfradd ailgylchu gyfartalog o **67.3%**; y gyfradd ailgylchu gyfartalog uchaf o gymharu â Chynghorau Bro (65.7%) a

[8] Gall cyfraddau ailgylchu ar gyfartaledd fod rhywfaint yn wahanol oherwydd talgrynnu.

Chynghorau Trefol (63.7%). Mae'r graff yn dangos bod y gyfradd ailgylchu trefol gyfunol yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gallai hyn fod oherwydd bod fflatiau a thai dwysedd uchel gyda diffyg lle a chyfleusterau gwastraff cymunedol, gan gynnwys tai amlfeddiannaeth a phoblogaeth uchel o fyfyrwyr, sy'n fwy anodd i'w cyrraedd ac yn feysydd targed problemus i Gynghorau. Gall natur wledig a demograffig-gymdeithasol fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau ailgylchu, ac mae'r ddau y tu hwnt i reolaeth Cyngor.




**Ffigwr 5**

Rhwng 2020/21 a 2021/22 bu i Wastraff Solid Trefol (GST) gynyddu o 1,488,253 tunnell i 1,508,370 tunnell. Fodd bynnag, mae sgil-gynhyrchion 2021/22 yn is na'r ffigwr o 1,512,105 tunnell cyn y pandemig (2019/20), gan barhau â thuedd tymor hwy o ran lleihau gwastraff. Mae sgil-gynhyrchion GST wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2015/16 os ydym yn diystyru 2020/21 (y pandemig ar ei anterth), gan amlygu gostyngiad mewn gwastraff GST dros y saith mlynedd ddiwethaf. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i; newid ymddygiad, cyfyngiadau gwastraff gweddilliol, gorfodi a gwell gwasanaethau ailgylchu ymyl y palmant.

Yn ystod yr un cyfnod (2020/21 a 2021/22) bu i sgil-gynhyrchion cartref cyffredinol ostwng o 1,313,339 tunnell i 1,306,273 tunnell. Mae'r ffigwr hwn yn debyg i ffigwr 2019/20 (cyn y pandemig) o 1,303,765 tunnell gan amlygu dychweliad tuag at 'normalrwydd'. Mae data o ffurflenni cyllid WasteDataFlow yn awgrymu bod y pandemig wedi tarfu ar hynt y targed i leihau gwastraff cartrefi yng Nghymru o 1,289,384 tunnell [9]ar gyfer 2021/22. Gyda llawer yn debygol o barhau i weithio o gartref yn y dyfodol, gan arwain at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant, efallai y bydd yn fwy heriol i gyrraedd targedau lleihau gwastraff cartrefi yn y dyfodol. Bydd yn dod yn gynyddol bwysig fod Cynghorau yn gweithredu ymyraethau y tu hwnt i ostwng gwastraff gweddilliol, er enghraifft cynyddu atgyweirio ac ail-ddefnyddio.


## Deunyddiau Ailgylchu Sych

Rhwng 2020/21 a 2021/22 bu i gostau gwasanaeth deunyddiau ailgylchu sych ymyl palmant ostwng £1.8 miliwn, gan ostwng i £72.7 miliwn, gostyngiad o 2.5%. Gwelwyd gostyngiad o 6.5% o ran gwariant net mewn termau real. Gellir cysylltu'r gostyngiad mewn gwariant yn rhannol â chynnydd sylweddol yng ngwerthiant deunyddiau ailgylchu sych yn ystod 2021/22. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o bron i 13,000 tunnell (4%), yng nghrynswth y deunyddiau ailgylchu sych a gasglwyd. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd cynnydd sylweddol y flwyddyn flaenorol; yn ystod y pandemig, roedd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn ei

[9] Ffynhonnell: Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Llywodraeth Cymru


gwneud yn ofynnol i bobl aros gartref, gan arwain at gynnydd mewn tunelledd ymyl palmant. Yn 2021/22, cafodd y cyfyngiadau eu codi, gyda phobl yn dychwelyd yn rhannol at 'normalrwydd', a adlewyrchir yn y gostyngiad yn y deunyddiau ailgylchu sych a gasglwyd ar ymyl y palmant.

Mae ffigwr 6 yn dangos costau gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych fesul cartref a chyfradd ailgylchu wedi eu grwpio yn ôl dull casglu Dengys data fod Cynghorau glasbrint, yn ystod 2021/22, wedi cyflawni cyfradd ailgylchu ar y cyd o 67%, 2.8 pwynt canran yn uwch na dulliau casglu eraill. Pan fônt yn cael eu cynnwys gyda'i gilydd, roedd cost canolrif gwasanaeth ailgylchu deunyddiau sych Cynghorau glasbrint fesul cartref yn £1.17 yn uwch na dulliau casglu eraill a 58 ceiniog yn uwch na chanolrif Cymru o £51.16 fesul cartref.




**Ffigwr 6**


Mae ffigwr 7 isod yn dangos yr amrywiaeth eang mewn costau gwasanaeth deunyddiau ailgylchu sych. Mae Cynghorau glasbrint yn dangos y gost uchaf fesul cartref ond hefyd yn dangos rhai o'r costau isaf. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at ystod eang o amrywiadau cost. Gall y ffactorau hyn gynnwys dulliau casglu, natur wledig, amlder, cerbydau, rheolaeth allanol/fewnol ati. Mae perfformiad gwasanaeth, o ran crynswth y deunyddiau sych a gasglwyd [10]fel cyfran o gyfanswm GST, yn cael ei ddangos fel llinellau oren ar y graff, a nodir gan ddefnyddio'r echelin ar ochr dde'r graff, eto, gwellir gweld amrywiaeth eang.




**Ffigwr 7**

[10]Nid yw hyn yn cymryd ystyriaeth o unrhyw halogiad/gwastraff a wrthodwyd.

**Costau casgliadau**
Rhwng 2020/21 a 2021/22, gwelwyd cynnydd o ran costau gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu sych, o £56.2 miliwn i £60.2 miliwn. Mae ffigwr 8 yn dangos cost net casglu deunyddiau ailgylchu sych fesul cartref. Mae Cynghorau trefol yn dangos y gost net canolrif isaf fesul cartref ar £32 fesul cartref. O ran Cynghorau bro a chynghorau gwledig, mae'r ffigyrau'n uwch, sef £41 fesul cartref a £51 fesul cartref, yn y drefn honno. Roedd Cynghorau gwledig £10 yn ddrytach fesul cartref na chanolrif Cymru (£45) sy'n awgrymu y gall natur wledig, ffactor sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, fod yn ffactor o ran costau casglu uwch. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd dwysedd y boblogaeth, milltiredd a chostau cludiant ac ati. Mae'n werth nodi bod chwech allan o'r deg o Gynghorau gwledig yn cydymffurfio â'r glasbrint yn ystod y cyfnod hwn.





**Ffigwr 8**

**Incwm o werthiant Deunyddiau Ailgylchu Sych**
Bu i'r incwm cyffredinol o werthiant deunyddiau ailgylchu sych fwy na dyblu rhwng 2020/21 a 2021/22, gan gynyddu i £12.2 miliwn, y swm uchaf a gofnodwyd ers dechrau gwaelodlin y data yn 2008/09. Gall y cynnydd sylweddol mewn gwerthiant deunyddiau ailgylchu sych fod o ganlyniad i gynnydd ac adferiad yng nghyfraddau'r farchnad, gan arwain at Gynghorau yn cael prisiau uwch fesul tunnell yn dilyn y pandemig. Byddai gwell gwasanaethau ymyl y palmant yn debygol o wella cyfraddau halogiad ac felly'n cynyddu incwm o werthu deunyddiau ailgylchu sych ar gyfer rhai Cynghorau. Daw'r cynnydd ar ôl gostyngiad yn 2020/21, oherwydd gostyngiad yn y pris fesul tunnell am ddeunyddiau, yn sgil y pandemig.

Mae Ffigwr 9 isod yn dangos faint o incwm a gafwyd drwy werthu deunyddiau a gasglwyd ar sail fesul cartref. Mae incwm yn amrywio'n sylweddol ar draws y grŵp ac yn adlewyrchu'r gwahanol gyfluniadau gwasanaeth a threfniadau dan gontract sydd ar waith ar gyfer trin y deunyddiau a gasglwyd. Am resymau sy'n ymwneud â chontract, efallai y bydd incwm deunyddiau ailgylchu rhai Cynghorau wedi'i netio wrth gofnodi'r ffigyrau, ac felly'n dangos fel dim incwm. Mae'r newidynnau hyn yn golygu bod yn rhaid edrych ar y data hwn fel man

cychwyn ar gyfer cwestiynu gwahaniaethau ac na ddylid dibynnu'n gyfan gwbl arno i egluro union sefyllfa pob Cyngor.




**Ffigwr 9**


Yn ôl y data a'r rhybuddion uchod, ar y cyfan, Cynghorau glasbrint a gafodd yr incwm canolrifol uchaf o werthu deunyddiau ailgylchu sych ar sail fesul tunnell, o gymharu â dulliau eraill, a allai awgrymu deunyddiau o ansawdd gwell a llai o halogiad/deunyddiau nad ydynt yn darged gan Gynghorau glasbrint. Bu i Gynghorau glasbrint ddangos cost ganolrifol fesul tunnell o £81.85, £12 yn fwy na dulliau casglu eraill o'u grwpio gyda'i gilydd.

## Gwastraff Organig

Yn ystod 2021/22 bu i wastraff organig ostwng ychydig o ran perfformiad a gwariant mewn termau real. Mae hyn yn dilyn cynnydd sydyn y flwyddyn flaenorol a ellir ei gysylltu eto â'r pandemig pan roedd angen i bobl aros gartref gan olygu mwy o wastraff bwyd a gwyrdd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Mae'r gostyngiad yn ystod 2021/22 yn amlygu dychweliad tuag at 'normalrwydd', er bod nifer o bobl yn parhau i weithio o gartref ac felly gellir parhau i gyflwyno mwy o wastraff ar ymyl y palmant o gymharu â lefelau cyn y pandemig.

## Gwastraff Bwyd

Yn ystod 2021/22 bu i gostau gwasanaeth gwastraff bwyd gynyddu £1.7 miliwn, cynnydd o 4.7% a 0.68% wrth gymryd ystyriaeth o chwyddiant. Mae ffigwr 10 isod yn dangos amrywiaeth yn y gost fesul cartref, gyda chostau'n amrywio o £3.50 fesul cartref i £41.60 fesul cartref. Dylid cofio bod gwastraff bwyd yn aml yn cael ei gasglu gyda ffrydiau gwastraff eraill, fel arfer deunyddiau ailgylchu sych ar gyfer Cynghorau sy'n didoli ar ymyl y palmant. Yn yr achosion hyn, mae'r ffigyrau yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio dosraniad.




**Ffigwr 10**


Yn gyffredinol, bu i wastraff bwyd a gasglwyd ar ymyl y palmant ostwng 4,760 tunnell. Eto, mae'r gostyngiad yn debygol o fod yn gysylltiedig â chynnydd y flwyddyn flaenorol (2020/21) oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Wrth i bethau ddechrau dychwelyd i 'normal' a phobl yn dychwelyd i'r gwaith, arweiniodd hyn at lai o wastraff bwyd yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Fodd bynnag, o gymharu â data cyn y pandemig, bu i dunelledd gwastraff bwyd gynyddu o 131,498 tunnell i 141,785 tunnell rhwng 2019/20 a 2021/22. Gallai hyn fod oherwydd cynnydd mewn cyfranogiad o ganlyniad i bobl yn parhau i weithio o gartref a/neu newid ymddygiad gyda phobl yn defnyddio'r cynwysyddion cywir i ailgylchu eu gwastraff.

## Gwastraff Gwyrdd

Yn gyffredinol bu i wariant gwasanaeth gwastraff gwyrdd ostwng £1.4 miliwn, gostyngiad o 7.5% a 11.4% wrth gymryd ystyriaeth o chwyddiant. Gellir cysylltu'r gostyngiad mewn gwariant gyda chynnydd o £1.4 miliwn mewn incwm gan Gynghorau sy'n codi tâl am y gwasanaeth.

Yn dilyn y pandemig pan fu i rai Cynghorau atal eu casgliadau gwastraff gwyrdd er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau craidd, gwelwyd gwasanaeth mwy 'normal' yn weithredol yn 2021/22. Rhwng 2020/21 a 2021/22, bu i dunelledd gwastraff gwyrdd ostwng 5,318 tunnell. Fodd bynnag, o gymharu â data cyn y pandemig, (2019/20), gwelwyd cynnydd o ran tunelledd gwastraff gwyrdd, o 101,126 tunnell i 112,483 tunnell, sy'n dangos cynnydd mewn cyfranogiad. Gallai'r cynnydd mewn cyfranogiad fod yn gysylltiedig â newid ymddygiad gan fod mwy o bobl yn treulio amser yn garddio yn ystod y cyfnod clo; mae data 2021/22 yn awgrymu fod hyn wedi parhau i ryw raddau.

Mae ffigwr 11 isod yn dangos yr amrywiadau yn y gost fesul cartref. Mae'n bwysig nodi bod y gost yn cael ei rhannu gyda chyfanswm nifer y cartrefi, nid nifer y defnyddwyr neu danysgrifwyr. Hefyd, mewn rhai achosion, caiff ffigyrau eu cyfrifo gan ddefnyddio dosraniad wrth eu casglu gyda ffrydiau gwastraff eraill. Mae amrywiadau mewn costau yn debygol o gael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau megis natur wledig, math o eiddo, amlder casgliadau ac a godir tâl.





**Ffigwr 11**

### Codi Tâl / Peidio â Chodi Tâl

Yn ystod 2021/22, roedd hanner Cynghorau Cymru yn codi tâl ar breswylwyr am gasglu gwastraff gwyrdd ar ymyl y palmant[11] trwy danysgrifiadau blynyddol. Mae'r Cynghorau hyn yn cynnwys Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gâr, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Sir y Fflint, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys a Wrecsam. Mae nifer gynyddol o Gynghorau wedi lleihau eu casgliadau gyda chyfyngiadau tymhorol dros y blynyddoedd diwethaf. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.

[11] Mae Ceredigion hefyd yn codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd, ond cafodd y gwasanaeth ei atal am y rhan fwyaf o 2021 yn dilyn y pandemig ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y siartiau gwastraff gwyrdd.

Mae'r graff isod yn cymharu Cynghorau sy'n codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd â Chynghorau nad ydynt yn codi tâl, ar sail y gost fesul tunnell. Mae'r graff yn dangos mai'r 5 Cyngor sydd â'r gost isaf fesul tunnell ar gyfer gwasanaeth gwastraff gwyrdd yw'r Cynghorau sy'n codi tâl am y gwasanaeth. Y gost ganolrifol ar gyfer Cynghorau sy'n codi tâl am gasgliadau gwastraff gwyrdd yw £83 fesul tunnell; £75 yn is na'r gost ganolrifol fesul tunnell ar gyfer Cynghorau nad ydynt yn codi tâl. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae incwm gwastraff gwyrdd wedi parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall, ac yn 2021/22 gwelwyd cynnydd o £1.8 miliwn (51%) o gymharu â 2019/20. [12] Mae'n werth nodi bod wyth allan o'r 11 Cyngor a gododd dâl am gasgliadau gwastraff gwyrdd yn 2020/21 yn Gynghorau gwledig.





**Ffigwr 12**

[12] Gwneir cymhariaeth gyda 2019/20 (cyn y pandemig) gan y bu i rai Cynghorau atal codi tâl yn ystod 2020/21 (y pandemig ar ei anterth)

## Gwastraff Gweddilliol

Rhwng 2020/21 a 2021/22 ni fu llawer o newid o ran gwariant ar wasanaethau gwastraff gweddilliol, a ostyngodd £44,000 i £98.1 miliwn. Mae costau sydd wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn dangos mwy o ostyngiad o ran gwariant mewn termau real, gostyngiad o 4%. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o bron i 30,000 tunnell yng nghrynswth y gwastraff gweddilliol a gasglwyd. Daw'r gostyngiad mewn crynswth gweddilliol yn sgil cynnydd sylweddol y flwyddyn flaenorol pan roedd y pandemig ar ei anterth pan roedd rhaid i bobl aros gartref ac roedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar gau dros dro, a arweiniodd at fwy o wastraff yn cael ei gyflwyno ar ymyl y palmant. Gallai'r gostyngiad o ran gwastraff gweddilliol a gasglwyd ar ymyl y palmant yn 2021/22 fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn crynswth canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar ôl iddynt ailagor, gan amlygu newid mewn tunelledd. Nid yw crynswth gwastraff gweddilliol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid yn 2019/20, ond mae'r gostyngiad yn awgrymu dychweliad rhannol at 'normalrwydd'. Er bod cyfyngiadau wedi eu codi, bu i nifer o bobl barhau i weithio o gartref yn ystod 2021/22 sy'n debygol o fod wedi arwain at gyflwyno mwy o wastraff ar ymyl y palmant na'r lefelau cyn y pandemig.


Mae ffigwr 13 isod yn dangos y gwariant net ar wasanaethau gwastraff gweddilliol fesul cartref yn ystod 2021/22. Gellir gweld amrywiadau mewn cost ar draws y grŵp ac maent yn debygol o fod wedi eu dylanwadu gan nifer o ffactorau megis dull casglu, amlder, ardal wledig, cerbydau, màs a gasglwyd, rheolaeth allanol/fewnol, dull trin a gwahanol drefniadau contract.




**Ffigwr 13**

### Amlder Gwastraff Gweddilliol


Yn ystod 2021/22 roedd pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru yn casglu gwastraff gweddilliol o leiaf bob pythefnos, ac roedd Ynys Môn, Blaenau Gwent, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro a Phowys yn casglu bob 3 wythnos, a Chonwy yn darparu gwasanaeth bob 4 wythnos. Gweler Atodiad A
am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.




**Ffigwr 14**

Mae ffigwr 41 yn dangos cost casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref. Mae'r graff yn dangos mai Cynghorau sy'n casglu bob pythefnos sydd â'r gost ganolrifol isaf fesul cartref, o gymharu â'r rhai sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos, £22.80, £28.48 a £24.80 yn y drefn honno. Unwaith eto, mae'n werth nodi bod 6 allan o'r 7 Cyngor sy'n casglu bob tair/ pedair wythnos yn Gynghorau gwledig, ac mae'n naturiol felly y gallant ddangos costau casglu uwch oherwydd dwysedd poblogaeth, sy'n debygol o arwain at gostau cludiant a milltiredd uwch.

## Màs Gweddilliol a Gasglwyd




**Ffigwr 15**

Mae Ffigwr 15 uchod yn dangos y crynswth gweddilliol a gasglwyd fesul cartref yn 2021/22 ac yn cymharu Cynghorau sy'n casglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos gyda'r rhai sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos. Mae'r graff yn dangos bod Cynghorau sy'n darparu casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair neu bedair wythnos wedi casglu ffigwr canolrifol o 53kg fesul cartref yn llai o wastraff gweddilliol na'r rhai sy'n darparu casgliadau bob pythefnos. Mae hyn yn awgrymu bod casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair neu bedair wythnos yn annog preswylwyr i leihau gwastraff gweddilliol. Mae cyfradd ailgylchu gyfartalog Cynghorau sy'n casglu gwastraff gweddilliol bob tair neu bedair wythnos 2% yn uwch na Chynghorau sy'n casglu bob pythefnos; 67.3% o gymharu â 65.3%, yn y drefn honno. Mae'n bwysig nodi bod 6 allan o'r 7 Cyngor sy'n casglu bob tair neu bedair wythnos yn cydymffurfio â'r glasbrint ac yn Gynghorau gweledig; ffactorau a all hefyd gyfrannu at y crynswth a gesglir.

O gymharu Cynghorau yn ôl natur wledig, y Cynghorau gwledig wnaeth gasglu'r crynswth isaf o wastraff gweddilliol yn ystod 2021/22, yn ogystal â'r crynswth uchaf o ddeunyddiau ailgylchu sych ymyl palmant ar sail kg fesul cartref (canolrif). Gallai'r gwahaniaeth mewn crynswth a gasglwyd ar ymyl y palmant fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys ymhlith eraill, amlder, capasiti, cynhwysydd a ddarperir, gorfodi, dull casglu deunyddiau ailgylchu sych. Gall natur wledig a demograffig-gymdeithasol (er enghraifft fflatiau a thai dwysedd uchel, poblogaeth myfyrwyr, tai amlfeddiannaeth, oedran a phroffil) hefyd fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at y crynswth a gesglir, ac mae pob un ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

**Cynhwysydd Gwastraff Gweddilliol**


Yn ystod 2021/22, darparodd 15 o Gynghorau finiau ar olwynion safonol [13]ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ar ymyl y palmant. Defnyddiodd 7 o Gynghorau fagiau neu sachau safonol ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ar ymyl y palmant. Roedd y Cynghorau hyn yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Fynwy, Abertawe a Bro Morgannwg. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth.

| Gwastraff gweddilliol | Kg a gasglwyd fesul cartref (canolrif) | Y gost ganolrifol fesul tunnell | Cyfradd gyfartalog ailgylchu a chompostio ymyl y palmant |
|---|---|---|---|
| Bin ar olwynion | 319kg | £236 | 36% |
| Bagiau/ sachau | 223kg | £238 | 41% |
| Gwahaniaeth | 96kg | £2 | 5% |

Mae'r data yn y tabl hwn a Ffigwr 16 (isod) yn awgrymu bod Cynghorau a oedd yn defnyddio bagiau / sachau i gasglu gwastraff gweddilliol wedi casglu 96kg fesul cartref (canolrif) yn llai o wastraff ar ymyl y palmant na Chynghorau a oedd yn defnyddio biniau ar olwynion yn ystod 2021/22. Mae'r data'n dangos bod costau Cynghorau sy'n defnyddio bagiau/sachau a Chynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion yn debyg, ond yn benodol, fod cyfradd ailgylchu a chompostio ymyl y palmant Cynghorau sy'n defnyddio bagiau/sachau 5% yn uwch

[13]Mae rhai o'r Cynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion yn caniatáu i rai cartrefi nad ydynt yn gallu defnyddio biniau ar olwynion ddefnyddio bagiau, ond ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r Cynghorau hynny wedi'u categoreiddio fel Cynghorau sy'n defnyddio biniau ar olwynion, gan mai dyna'r cynhwysydd safonol a ddarperir i gartrefi.

ar gyfartaledd. Mae nifer o Gynghorau sy'n darparu bagiau yn Gynghorau gwledig, gyda phoblogaeth ddemograffig hŷn o bosibl. Mae ymchwil yn dangos bod y boblogaeth ddemograffig hŷn yn tueddu i fod yn rhai gwell am ailgylchu. Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad, mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y crynswth a gesglir ar ymyl y palmant, gan gynnwys ymhlith eraill, amlder, capasiti, cynhwysydd a ddarperir, dulliau gorfodi a chasglu deunyddiau ailgylchu sych a ffactorau digyfnewid megis demograffeg.




**Ffigwr 16**

## Gwaredu Tirlenwi Gweddilliol

Yn 2021/22, gwelwyd y gwariant net isaf ar gofnod o ran gwarediadau, sy'n dangos tuedd tymor hwy. Gwelwyd gostyngiad o bron i £1.8 miliwn mewn costau net gwaredu, o tua £5.8 miliwn yn 2020/21 i tua £4 miliwn yn 2021/22. Gall nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn gwastraff gweddilliol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi dros y blynyddoedd, gan gynnwys (ymhlith eraill), Treth Gwarediadau Tirlenwi, a allai fod i raddau wedi cymell dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ddulliau eraill llai niweidiol megis ailgylchu, ailddefnyddio a throi gwastraff yn ynni. Mae effaith y dreth gwarediadau tirlenwi ar ailgylchu ac ailddefnyddio i'w gweld ym mhrif ganfyddiadau crynodeb o'r adolygiad o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: [14]


> *Rhwng 2018-2022, cynyddodd cyfraddau ailgylchu 2 y cant, er na chynyddodd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn termau real. Er y gallai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod wedi cynyddu ailgylchu, credai rhanddeiliaid fod ffactorau eraill yn dylanwadu (yn benodol arwyddion gwleidyddol fod tirlenwi yn ddewis anghynaladwy a thargedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol) wedi cael mwy o effaith. (Eunomia/LlC t. 4)*

[14] Adolygiad annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: mae crynodeb ar gael yma

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Yn dilyn y pandemig, pan oedd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar draws Cymru ar gau dros dro a systemau archebu yn cael eu cyflwyno, gwelwyd dychweliad tuag at 'normalrwydd' yn 2021/22. Bu i rai Cynghorau barhau i ddefnyddio systemau archebu wrth wneud gwelliannau eraill. Fe ailgychwynnodd gorsafoedd didoli gwastraff cyffredinol/ gweddilliol a bu i siopau ailddefnyddio ailagor i gwsmeriaid ar y safleoedd. Yn ystod 2021/22, cafodd pedair siop ailddefnyddio newydd eu hagor gan Gynghorau ym Mlaenau Gwent, Caerdydd, Sir Gâr a Sir Fynwy.[15]

Rhwng 2021/21 a 2021/22 gwelwyd cynnydd o 8.6% o ran gwariant cyffredinol canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, er gwaethaf cynnydd o £2.1 miliwn mewn incwm a gafwyd gan Gynghorau. Mae costau sydd wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn dangos llai o gynnydd o ran gwariant mewn termau real (4.6%). Daw'r cynnydd yn dilyn gostyngiad o 7% y flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig, ac mae hyn eto yn dangos dychweliad rhannol at 'normalrwydd'. Dengys y data bod gwariant cyffredinol canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn 2021/22 wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig (2019/20), £42,627,675 a £42,248,897, yn y drefn honno. Mae ffigwr 17 isod yn dangos y gwariant net ar ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn ystod 2021/22 ar sail cost fesul cartref.





**Ffigwr 17**

Rhwng 2020/21 a 2021/22 bu i gost ganolrif canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref fesul cartref gynyddu £2.20, gan gynyddu i £31.20 fesul cartref; ffigwr tebyg i lefelau cyn y pandemig. Gwelwyd gostyngiad o £10 o ran y gost net ganolrifol fesul tunnell, gan ostwng i £157.91 fesul tunnell o gymharu â 2020/21. Fodd bynnag, o gymharu â ffigyrau cyn y Covid, mae gwahaniaeth sylweddol o hyd. Yn 2019/20, gwelwyd ffigwr o £120 ar gyfer y gost ganolrifol fesul tunnell, £38 fesul tunnell yn is nag ar ôl y pandemig (2021/22). Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol gysylltiedig ag 18% yn llai o fewnbwn mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, o gymharu cyfnodau cyn ac ar ôl y pandemig (2019/20 a 2021/22).

[15]Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a siopau ailddefnyddio yn adroddiad meincnodi canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref y Rhaglen Gwella Gwastraff, sydd ar gael ar y canolbwynt meincnodi ariannol Gwastraff ac Ailgylchu.

Yn 2021/22 gwelwyd cynnydd o 16.8% o ran cyfanswm y gwastraff gweddilliol a deunyddiau ailgylchu mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Dros yr un cyfnod, bu i'r crynswth o ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, fel cyfran gyffredinol o ffrydiau gwastraff cartrefi, gynyddu o 21% yn 2020/21 i 24% yn 2021/22. Fodd bynnag, nid yw'r gyfran wedi dychwelyd i lefelau cyn covid (2019/20) o 30%, gan ddangos effaith barhaol y pandemig.

Yn dilyn y pandemig, yn 2021/22 gwelwyd newid mewn tunelli rhwng ochr y palmant (sych, organig a gweddilliol) a chanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Fel yr amlygwyd yn ffigwr 18, bu i dunelledd canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref gynyddu 46,026 tunnell, a bu i dunelledd ymyl y palmant ostwng 52,612 tunnell gan awgrymu wrth i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ail-agor ar ôl y pandemig, a phobl yn dychwelyd i'r gwaith, fod llai o wastraff wedi ei gyflwyno ar ymyl y palmant a chymerwyd mwy o wastraff i'r canolfannau, gan amlygu dychweliad rhannol i 'normalrwydd'.




**Ffigwr 18**

Ers 2008/09, mae perfformiad ailgylchu wedi cynyddu'n raddol a gwelwyd dirywiad bychan yn 2021/22. Mewn rhai Cynghorau, ble mae systemau archebu wedi cael eu rhoi ar waith, fe'u hystyrir fel rhwystr o ran cael gwared ar wastraff "masnachol" mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae'n bosibl bod y lleihad o ran mewnbwn dros y blynyddoedd diwethaf hefyd yn gysylltiedig â gweithrediad parhaus gwasanaethau ymyl y palmant cynhwysfawr ar draws Cymru, cyfyngiadau gwastraff masnachol, gwiriadau ar bwy sy'n byw ar aelwydydd ac agor siopau ailddefnyddio.

## Atodiad – Tabl A

## Manylion gwasanathau casglu

| Cyngor | Dull Casglu Ailgylchu | Amlder Casglu Gwastraff Gweddilliol | Daliedydd Gwastraff Gweddilliol | Amlder Casglu Gwastraff Gardd | Gwastraff Gardd Ffi | Nifer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref | Nifer y Safleoedd Ailddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (cesglir trwy gydol y flwyddyn) | Ffi | 2 | |
| Blaenau Gwent | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos (Tymhorol) | Dim ffi | 2 | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Glasbrint | Bob pythefnos | Sachau Glas Ymyl Palmant 65 Litr (2 fag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 3 | 1 |
| Caerffili | Cymysg | Bob pythefnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos (Cesglir trwy gydol y flwyddyn) | Dim ffi | 6 | 1 |
| Caerdydd | Cymysg | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion neu Sachau Coch Streipiog (3 bag) | Bob pythefnos neu bob mis dros y Gaeaf | Dim ffi | 2 | 1 |
| Sir Gâr | Cymysg (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (4 bag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 4 | 1 |
| Ceredigion | Dwy Ffrwd | Bob tair wythnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu | Bob pythefnos ar gais | Ffi Cafodd y gwasanae | 4 | 1 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | hunain (dim cyfyngiad) | | th ei atal gan amlaf yn 2021/22) | | |
| Conwy | Glasbrint | Bob pedair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 2 | 1 |
| Sir Ddinbych | Cymysg (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 3 | |
| Sir y Fflint | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 180 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 5 | |
| Gwynedd | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Ffi | 8 | 1 |
| Merthyr Tudful | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (tymhorol) | Dim ffi | 2 | 1 |
| Sir Fynwy | Ffrydiau Lluosog | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (2 fag) | Bob wythnos (tymhorol) | Ffi | 4 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 3 (mae 1 ohonynt yn safle a rennir gyda Chyngor Powys) | 1 |
| Casnewydd | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 120 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 1 | 1 |
| Sir Benfro | Glasbrint | Bob tair wythnos | Darperir bagiau gwastraff gweddilliol (3 bag) | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 6 | |
| Powys | Glasbrint | Bob tair wythnos | Bin 180 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos (Tymhorol) | Ffi | 5 (mae 1 ohonynt yn safle a rennir gyda Chastell- | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | nedd Port Talbot) | |
| Rhondda Cynon Taf | Dwy Ffrwd | Bob pythefnos | Cyfuniad o Finiau 120 a 240 Litr ar Olwynion | Bob wythnos a bob pythefnos dros y gaeaf | Dim ffi | 6 | 2 |
| Abertawe | Ffrydiau Lluosog (Bob pythefnos) | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (3 bag) | Bob pythefnos | Dim ffi | 5 | 1 |
| Torfaen | Didoli Ymyl Palmant | Bob pythefnos | Bin 140 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos | Dim ffi | 1 | 1 |
| Bro Morgannwg | Glasbrint | Bob pythefnos | Cartrefi yn darparu eu bagiau eu hunain (2 fag) | Bob pythefnos (tymhorol) | Dim ffi | 2 | |
| Wrecsam | Glasbrint | Bob pythefnos | Bin 240 Litr ar Olwynion | Bob pythefnos a bob mis dros y gaeaf | Ffi | 3 | 1 |

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch manylion y gwasanaeth, ewch i'r Canolbwynt Meincnodi: https://www.benchmarkingwales.net/IAS/launch

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus |
| **DYDDIAD:** | 18 Mawrth 2024 |
| **LLEOLIAD:** | Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy gynhadledd fideo |
| **TEITL:** | Argaeledd grantiau ar gyfer sefydliadau a busnesau yng Ngheredigion |

**Cefndir**

Yng Ngheredigion, mae amrywiaeth o grantiau ar gael i sefydliadau a busnesau at wahanol ddibenion, yn bennaf i gefnogi eu twf, eu harloesedd a'u cyfraniad i'r economi. Mae'r rhesymau pam mae busnesau'n derbyn grantiau gan y sector cyhoeddus yn cynnwys:

1. Ymchwil a Datblygu. Yn aml darperir grantiau i fusnesau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil a datblygu i annog creu cynnyrch, prosesau neu dechnolegau newydd a all wella cystadleurwydd a sbarduno twf economaidd.

2. Creu Swyddi: Gellir dyfarnu grantiau i fusnesau sy'n dangos y potensial i greu swyddi newydd neu gadw'r rhai presennol, yn enwedig mewn ardaloedd neu ddiwydiannau dan anfantais economaidd, fel rhan o ymdrechion y llywodraeth i ysgogi cyflogaeth.

3. Arloesi ac Entrepreneuriaeth: Gall grantiau gefnogi mentrau entrepreneuraidd a busnesau cychwynnol arloesol trwy ddarparu cyllid ar gyfer datblygiad cam cynnar, prototeipio a phrofi cynnyrch neu wasanaeth newydd yn y farchnad.

4. Mentrau Diwydiant-Benodol: Gall llywodraethau neu sefydliadau gynnig grantiau i fusnesau sy'n gweithredu mewn diwydiannau neu sectorau penodol i ysgogi twf, mynd i'r afael â heriau'r diwydiant, neu hyrwyddo gweithgaredd ym maes cynaliadwyedd ac amgylcheddol. Yng Ngheredigion, mae grantiau i gefnogi'r sector bwyd-amaeth a

thwristiaeth wedi bod ar gael ar adegau penodol.

5. Datblygu Rhanbarthol: Defnyddir grantiau weithiau fel offeryn ar gyfer datblygu rhanbarthol, gyda'r nod o gefnogi busnesau mewn ardaloedd sydd heb eu datblygu neu eu tan ddatblygu i sbarduno twf economaidd a chreu cyfleoedd cyflogaeth.

6. Hyrwyddo allforio: Gellir dyfarnu grantiau i fusnesau sy'n dymuno ehangu i farchnadoedd rhyngwladol neu gynyddu eu gweithgareddau allforio, gan helpu i hybu masnach dramor a chryfhau economi'r wlad.

7. Effaith Gymdeithasol: Darperir rhai grantiau i fusnesau sy'n dangos ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol, cynaliadwyedd neu ddatblygu cymunedol, gan gefnogi mentrau sydd o fudd i gymdeithas tra'n cyflawni amcanion busnes ar yr un pryd.

Yn gyffredinol, mae grantiau'n cymell twf busnes, arloesi a datblygiad economaidd-gymdeithasol trwy ddarparu cymorth ariannol a chefnogaeth i fusnesau sy'n dangos eu bod yn cyfrannu i’r amcanion cyhoeddus hyn.

Mae grantiau hefyd ar gael i sefydliadau cymunedol i gefnogi datblygiad mentrau sy'n cefnogi datblygiad cyfleusterau a gweithgareddau yn y cymunedau hynny.

Yn gynyddol, mae llywodraethau'n tueddu i ffafrio'r defnydd o arian ailgylchadwy ar ffurf benthyciadau, neu gymysgedd o grantiau a chyllid ailgylchadwy, i wneud y cronfeydd presennol yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

Mae'r wybodaeth yn y papur hwn ond yn gynrychiolaeth o rywfaint o'r cyllid cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i fusnesau a sefydliadau yng Ngheredigion, ac nid yw’n rhestr gynhwysfawr. Mae llywodraethau neu gyrff y Llywodraeth yn lansio rhaglenni ariannu ar wahanol adegau i gefnogi blaenoriaethau a pholisïau'r Llywodraeth, felly cynghorir busnesau i ddefnyddio’r gefnogaeth sydd ar gael a chwilio'n eang am gymorth a allai fod ar gael ar unrhyw un adeg.

**Cyllid grant sydd ar gael ar hyn o bryd**

Ar hyn o bryd yng Ngheredigion, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU wedi galluogi sefydlu dau gynllun grant:

**Cronfa Datblygu a Chefnogi Cymunedol Cynnal y Cardi, a Chronfa Cefnogi Cynnal y Cardi. Mae Cronfa Datblygu a Chymorth Cymunedol Cynnal y Cardi'n cael ei darparu drwy 2 becyn:**

1. **Cynllun Grant Bach £1,000 - £10,000**
2. **Cynllun Grant Mawr £10,001 - £50,000 (Ni fydd ceisiadau mwy yn cael eu gwahardd ond bydd angen rhesymeg gadarn)**

Mae'r gronfa hon yn cefnogi ystod o weithgareddau refeniw a chyfalaf sy'n cynnwys.

- Cefnogi ac ymgysylltu â phobl, busnesau a chymunedau lleol i ddarparu atebion cynaliadwy ond arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ein hardaloedd.
- Treialu ffyrdd newydd o weithio
- Galluogi cymunedau i fuddsoddi ac adfer mannau cymunedol a pherthnasoedd.
- Creu'r sylfeini ar gyfer datblygu economaidd ar lefelau lleol
- Cefnogi gwead cymdeithasol cymunedau sy'n galluogi pobl i fod eisiau byw, gweithio, chwarae a dysgu yn y cymunedau hynny.

Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar;

- Gwelliannau i seilwaith presennol, cymunedol a chymdogaeth gan gynnwys mannau gwyrdd lleol.
- Datblygu a hyrwyddo digwyddiadau a phrofiadau lleol drwy gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol.
- Profi, trwy gynlluniau peilot ac astudiaethau dichonoldeb
- Cefnogi'r diwydiannau creadigol
- Buddsoddi yn y gallu a adeiladu seilwaith a chynaliadwyedd i grwpiau cymunedol gan gynnwys cynllunio olyniaeth.
- Mesurau cymunedol i leihau costau byw gan gynnwys mesurau i wella effeithlonrwydd ynni a brwydro yn erbyn tlodi tanwydd a newid hinsawdd.
- Buddsoddi a chymorth ar gyfer seilwaith digidol ar gyfer cyfleusterau cymunedol lleol

**Mae Cronfa Cefnogi Busnes Lleol Cynnal y Cardi yn cael ei chyflwyno drwy 2 becyn.**

1. **Grant Busnesau Bach £1,000 - £10,000**
2. **Grant Datblygu Busnes £10,001 - £50,000 (Ni fydd ceisiadau mwy yn cael eu gwahardd ond bydd angen rhesymeg gadarn)**

Nod y gronfa hon yw cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol a chefnogi busnesau ar bob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys trwy rwydweithiau lleol.

Mae'r gronfa hon yn cefnogi ystod o weithgareddau refeniw a chyfalaf sy'n cynnwys;

- Hybu economi Ceredigion, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.
- Cefnogi entrepreneuriaid newydd gyda'u dyheadau busnes cychwynnol.
- Cefnogi busnesau presennol gyda'u cynlluniau twf.
- Hwyluso a chefnogi'r Sector Menter Gymdeithasol i wireddu eu cyfleoedd.
- Adeiladu gwytnwch a gallu o fewn busnesau yn enwedig mewn perthynas â datgarboneiddio, effeithlonrwydd ynni a chymorth digidol.

Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar;

- Gweithgaredd entrepreneuriaeth
- Cefnogi busnesau newydd a datblygu twf
- Arloesi a Sgiliau
- Hyrwyddo’r defnydd o sgiliau a chyfarpar digidol ar gyfer busnesau lleol
- Cefnogaeth i gryfhau ymdrechion i datgarboneiddio a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.
- Gwaith comisiynu strategol / dichonoldeb
- Hybiau menter a chydweithrediadau i alluogi busnesau i rannu arfer da.

Yng Ngheredigion hefyd, mae cynllun grant Cymunedau Mentrus Arfor wedi bod ar gael, ond mae bellach wedi’i rannu’n llawn. Mae hyn wedi canolbwyntio ar alluogi busnesau i greu cyfleoedd gyrfa hirdymor i bobl allu datblygu a thyfu gyrfa yma yng Ngheredigion.

Drwy'r ddau gynllun, mae dros 50 o fusnesau eisoes wedi cael eu cefnogi, ac mae'r nifer yn cynyddu. Bydd dros 100 o swyddi wedi'u creu drwy'r rhaglenni cymorth presennol.

**Grantiau a chymorth sector-benodol:**

**Twristiaeth**

***Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru***

Mae'r gronfa'n cynnwys cymysgedd o gyllid ad-daladwy a grant, gan dargedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei ddefnyddio naill ai i uwchraddio asedau presennol, neu greu asedau newydd o ansawdd uchel yn y sector twristiaeth.

Er mwyn cael ei ystyried am gymorth gan Gronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru, bydd angen i ymgeisydd:

- Ymrwymo i gefnogi strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru a dangos ymrwymiad i’r pedwar o ofynion y Contract Economaidd – (Cryfder Economaidd ac Addasadwyedd, Gwaith Teg, Hyrwyddo Lles, a Charbon Isel a Gwytnwch Hinsawdd)
- Bod wedi'i leoli yng Nghymru a dangos sut y bydd y prosiect yn ysgogi twf mewn marchnadoedd newydd a phresennol ac yn creu a/neu'n diogelu swyddi.

- Dangos hyfywedd ariannol a'r gallu i ad-dalu dros gyfnod y pecyn ariannu.

**Bwyd-amaeth**

Y brif raglen grant o gymorth ariannol sydd wedi bod ar gael i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn ddiweddar yw'r cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd (FBAS), sydd wedi cefnogi buddsoddiadau yn y diwydiant bwyd a diod. Nid yw ar agor ar hyn o bryd gan fod y gyllideb bresennol wedi ei rannu'n llawn.

Mae cymorth technegol a chyngor ar gael o hyd i fusnesau (wedi'i ariannu hyd at 100% ar gyfer busnesau bach) trwy raglen Helix, lle mae Cyngor Sir Ceredigion, drwy Ganolfan Bwyd Cymru, yn rhan o'r bartneriaeth sydd yn darparu'r gwasanaeth.

**Grantiau Gwella Trefi**

Mae'r Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi, a weinyddir gan Gyngor Sir Ceredigion drwy Gyngor Sir Powys sy'n gweithredu fel yr Awdurdod arweiniol yng nghanolbarth y rhanbarth ar gyfer y rhaglen hon a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig cymorth ar gyfer ystod eang o brosiectau, o ddatblygiadau seilwaith gwyrdd i welliannau masnachol a phreswyl i berchnogion busnes.

Bydd angen i brosiectau posibl fodloni meini prawf cymhwysedd a fydd yn cynnwys dangos cysylltiadau clir â Chynllun Lle Tref presennol neu Strategaeth Canol y Dref. Hefyd, bydd angen i brosiectau posibl fodloni'r meini prawf Fframwaith Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi.

Gall ymgeiswyr drafod prosiectau posibl gyda'u swyddog prosiect lleol a all roi cyngor a helpu gyda'r broses mynegi diddordeb.

Bydd y grant yn rhedeg am 3 blynedd yn dechrau 01/04/22, gyda phrosiectau angen eu cwblhau erbyn 01/03/25.

Mae'r cynllun yn agored i fusnesau preifat, gan gynnwys datblygwyr, busnesau'r trydydd sector, a'r sector cyhoeddus. Nid yw ar gael i unigolion preifat.

**Grantiau wedi'u targedu gan bolisi**

***Cymorth arloesi***

Mae llawer o ffocws y Llywodraeth (Llywodraeth y DU drwy UKRI) a Llywodraeth Cymru ar gefnogi Ymchwil a Datblygu ac Arloesi.

Yng Nghymru, mae rhaglen Cymorth Arloesi Hyblyg Llywodraeth Cymru  yn helpu busnesau, y trydydd sector, cyrff sector cyhoeddus a sefydliadau ymchwil, i arloesi a chreu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, cynyddu masnacheiddio, gwella sgiliau a sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol ac yn ymdrechu tuag at leihau allyriadau carbon yn y dyfodol.

Mae SMART FIS yn helpu trwy yrru ymchwil ac arloesi blaengar. Ei nod unigol yw helpu sefydliadau yng Nghymru i gyflawni "Rhagoriaeth Arloesedd" trwy ddatblygu Cynlluniau Arloesi ochr yn ochr â thîm o arbenigwyr sy'n darparu arbenigedd, ymgynghorwyr a chyllid.

***Sgiliau***

Mae ystod eang o raglenni ar gael i fusnesau gefnogi hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithwyr.

**Benthyciadau a gefnogir gan y Llywodraeth**

***Banc Datblygu Cymru***

Sefydlwyd Banc Datblygu Cymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud yn haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen i ddechrau, cryfhau a thyfu.

Mae'n cynnig benthyciadau busnes hyblyg i ystod o fusnesau o fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu i gynlluniau olyniaeth gan gynnwys pryniant gan weithwyr.

Mae benthyciadau yn amrywio o £1k i £10m dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd gyda chyfraddau llog sefydlog.

***Banc Busnes Prydain – Cronfa Buddsoddi Cymru***

Bydd Cronfa Fuddsoddi Cymru yn darparu £130 miliwn o gyllid busnes newydd i Gymru.

Nod y gronfa yw ysgogi twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi arloesedd a chreu cyfle lleol i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu ledled Cymru.

Mae Cronfa Fuddsoddi Cymru yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cyllid masnachol gyda benthyciadau llai o £25,000 i £100,000, cyllid dyled o £100,000 i £2 filiwn a buddsoddiad ecwiti hyd at £5 miliwn. Mae'r gronfa ar gael ar draws Cymru gyfan.

Mae gan weithredwyr y gronfa dargedau penodol i gefnogi prosiectau yn y canolbarth.

---

**Cyllid y Fargen Dwf**
Bydd Bargen Twf Canolbarth Cymru yn sicrhau sawl buddsoddiad strategol yn y canolbarth, a fydd yn cefnogi twf yr economi. Nid yw'n gynllun grant busnes, er y gallai rhywfaint o gymorth wedi'i dargedu fod ar gael ar gyfer datblygu cyfleusterau (adeiladau) newydd ar gyfer busnesau (y mae prinder ohonynt) trwy ei raglen Safleoedd ac Adeiladau, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

---

| | |
|---|---|
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi cefndir a diweddariad i'r Pwyllgor ar gipolwg o'r rhaglenni cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Ngheredigion, gan ganolbwyntio'n benodol ar gymorth ariannol (grant).** |

**MAE CRAFFU RHESWM WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** Mae cefnogi twf busnesau yng Ngheredigion yn elfen allweddol o'r Strategaeth Economaidd, ac mae argaeledd cymorth ariannol yn rhan allweddol o sicrhau twf cynaliadwy i rai busnesau. Mae'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor Craffu allu asesu effaith y mecanweithiau cymorth i lywio polisi'r dyfodol drwy ddarparu tystiolaeth ar effeithiolrwydd y rhaglenni sydd ar gael.

**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os nad ydych, nodwch pam** Ddim ar hyn o bryd

***Crynodeb:***
**Hirdymor:**
**Integreiddiad:**
**Cydweithio:**
**Cyfranogiad:**
**Ataliad:**

**ARGYMHELLIAD (S):** Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth ar y materion a godwyd ynddo.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD (AU):**
Helpu i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi twf yr economi yng Ngheredigion.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Russell Hughes-Pickering, Arwyn Davies |
| **Dynodi:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 8/3/24 |

**Acronymau:**

**Atodiadau:**

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU FFYNIANNUS**
**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron. ddydd Dydd Gwener, 9 Chwefror 2024**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Marc Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Shelley Childs, Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Rhodri Evans, Cynghorydd Chris James, Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cynghorydd Sian Maehrlein, Cynghorydd Ann Bowen Morgan a/ac Cynghorydd John Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Cynghorydd Bryan Davies, Cynghorydd Catrin M S Davies, Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Euros Davies, Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd Ifan Davies, Cynghorydd Endaf Edwards, Cynghorydd Elizabeth Evans, Cynghorydd Eryl Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Keith Henson, Cynghorydd Hugh Richard Michael Hughes, Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynghorydd Wyn Thomas, Cynghorydd Matthew Vaux a/ac Cynghorydd Alun Williams

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Eifion Evans, Barry Rees, James Starbuck, Duncan Hall, Lowri Edwards, Elin Prysor, Rhodri Llwyd, Russell Hughes-Pickering, Lisa Evans

(9.30am - 1.30pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Dim.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
Dim.

**3 Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25**
Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl am Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon
**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:** £1.576m
**Y gyllideb bresennol:** £19.4m

D2 – Economi ac Adfywio
**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**
Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio
**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:** £255k (rhan o'r £419k o ostyngiadau arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth yr Economi ac Adfywio)
**Y gyllideb bresennol:** £4.0m

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, tudalennau 17-42 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**<u>Argymhellion:</u>**
O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
   a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
   b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
   c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
   d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
   e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
   f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
   g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

**<u>Rheswm dros yr argymhellion:</u>**

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymell bod y Cabinet yn:

1. Nid yw'r cynnig i gael gwared ar gasgliad ar wahân/penodedig Cynhyrchion Hylendid Amsugnol yn cael ei ystyried fel rhan o'r arbedion arfaethedig;
2. Cynhelir Asesiadau Effaith Integredig o ran y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau / arbedion;

Rhoddir rhagor o fanylion am y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau/arbedion e.e. cynnig y cyfleusterau cyhoeddus a'r cynnig i gyfyngu ar nifer y bagiau du a gesglir o bob aelwyd.

**4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 18 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **18 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Blaenraglen Waith Ddrafft 2024/2025**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
**Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod**

**Cefndir:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y Sefyllfa Gyfredol:**
**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Swyddogaeth:** Swyddog Craffu a Safonnau

**Dyddiad yr adroddiad:** 11/03/24

**Acronymau:**

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2024/25

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 18 Mehefin 2024 | Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus | | |
| 17 Gorffennaf 2024 | Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | | |
| 23 Hydref 2024 | Darparu strategaeth economaidd<br><br>CDLI<br><br>Y berthynas rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ran Cynllunio Gwlad a Thref | | |
| 18 Rhagfyr 2024 | | | |
| 7 Chwefror 2025 | Cyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19 Mawrth 2025 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm | | |